# Grant Cynaliadwyedd Sector

## Adroddiad Diwedd Grant
## Ebrill 2023

**Richa Sharma**

Ymchwil Cefnogaeth Gyfreithiol, y Tîm Gwerthuso Mynediad at Gyfiawnder

Cyfres Ddadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

2023

Nod y tîm Data a Dadansoddi yw gwella'r gallu ar gyfer llunio polisi, gwneud penderfyniadau ac ymarfer gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu data a chyngor amserol, dibynadwy a pherthnasol a godir o waith ymchwil a dadansoddi gan ddadansoddwyr yr adran a chan y gymuned ymchwil gyffredinol.

### Ymwadiad

Barn yr awduron sydd wedi'i mynegi yma ac nid yw o reidrwydd yn cael ei rhannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (nac yn cynrychioli polisi Llywodraeth).

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2023

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open- government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn researchsupport@justice.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn http://www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/moj

## Diolchiadau

Byddai'r tîm polisi cefnogaeth gyfreithiol a'r tîm dadansoddi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hoffi diolch i'r 66 o dderbynwyr grant a ddarparodd nifer helaeth o ddata a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn, gan wneud hynny yn ystod cyfnod cyflawni ymestynnol gan barhau i gynnal gwasanaethau. Hoffem ddiolch hefyd i gydweithwyr yn y tîm grantiau yn y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a chwaraeodd ran ganolog yn y gwaith o gasglu'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn drwy arwain ar reoli a gweinyddu grantiau unigol o ddydd i ddydd, ochr yn ochr â'r broses casglu data.

# Cynnwys

**Rhestr tablau**

**Rhestr ffigurau**

**1. Crynodeb Gweithredol** **1**
1.1 Cyd-destun y grant 1
1.2 Crynodeb o'r canfyddiadau 2

**2. Cyflwyniad** **4**

**3. Dosbarthu Cyllid** **7**
3.1 Sefydliadau a ariannwyd 7
3.2 Y galw am y grant 10
3.3 Gwariant y grant 12

**4. Canlyniad 1: Cynnal gwasanaethau cynghori i ddelio ag effaith barhaus y pandemig COVID-19** **15**
4.1 Nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant 15
4.2 Achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant wedi'u dadgyfuno yn ôl Meysydd Cyfraith 19
4.3 Effaith ar allu trefniadol derbynwyr y grant 23

**5. Canlyniad 2: Cynyddu mynediad at gyfiawnder drwy arloesi strategol** **25**
5.1 Dulliau darparu 25
5.2 Ymweliadau â gwefannau 30
5.3 Technoleg 32

**6. Canlyniad 3: Sicrhau mynediad eang at gyfiawnder drwy ddyfarnu grantiau i wella mynediad at gyngor i'r rheini na allent gael ato fel arall** **34**
6.1 Demograffeg a nodweddion cleientiaid 34
6.2 Arloesi i ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd anghysbell 37

**7. Adborth gan dderbynwyr y grant am brosesu a darparu'r grant** **39**

**8. Casgliad** **44**

**9. Cyfeiriadau** **46**

**Atodiad 1** **48**
Methodoleg 48

**Atodiad 2** **50**
Derbynwyr y grant a gwerth y grant 50

**Atodiad 3** **53**
Dosbarthiad y materion lle rhoddwyd cymorth rhwng meysydd cyfraith 53

**Atodiad 4** **54**
Canllaw ar bynciau ar gyfer cyfweliadau â derbynwyr y grant 54

**Atodiad 5** **57**
Holiadur yr Arolwg o Dderbynwyr y Grant 57

# Rhestr tablau

Tabl 1: Dosbarthiad gwerth y grant rhwng derbynwyr y grant 11

Tabl 2: Proffil gwariant cyfanredol rhwng y cyfan o'r 66 o dderbynwyr y grant yn ôl gweithgareddau a ariannwyd 12

Tabl 3: Nifer y dulliau darparu a ddefnyddiwyd gan dderbynwyr y grant 26

Tabl 4: Amserlen adrodd 49

# Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr a gynorthwywyd gan dderbynwyr y grant 9

Ffigur 2: Cymhareb rhwng gwerth y grant y gwnaeth sefydliadau gais amdano a gwerth y grant a dderbyniwyd 11

Ffigur 3: Dosbarthiad misol yr holl achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant rhwng yr holl feysydd cyfraith 17

Ffigur 4: Cyfanswm yr achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant yn yr holl feysydd cyfraith 20

Ffigur 5: Meysydd cyfraith lle'r oedd y nifer mwyaf o achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant yn fisol yn ystod cyfnod adrodd y grant (Ebrill 2021-Mawrth 2022) 21

Ffigur 6: Nifer derbynwyr y grant a ddefnyddiodd y gwahanol ddulliau darparu 27

Ffigur 7: Dosbarthiad misol yr ymweliadau â gwefannau rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 (31 o dderbynwyr grant) 31

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Cyd-destun y grant

Yn dilyn cychwyniad y pandemig COVID-19, darparwyd £5.4 miliwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i ddarparwyr cyngor cyfreithiol arbenigol nid-er-elw, drwy grant y Cynllun Gwasanaethau Cynghori Arbenigol COVID-19 (CSASS). Dosbarthwyd grant y CSASS drwy'r Gronfa Cyfiawnder Cymunedol (CJF): cronfa sy'n cael ei chynnal ar y cyd â chyllidwyr annibynnol eraill. Roedd y grant wedi helpu sefydliadau i beidio â chau ac aros yn weithredol. Cofnodwyd effaith fanwl grant y CSASSyn yr adroddiad diwedd grant (Heppell a Sharma, 2021).[1] Er bod cyfnod cyllido grant y CSASS wedi dod i ben ym Mawrth 2021, roedd y sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw yn parhau i brofi effeithiau negyddol y pandemig COVID-19. Felly, yn Awst 2021, cyfrannodd yr MoJ gyllid ychwanegol o £2 miliwn i Gam Dau y CJF. Yr enw ar y cyllid hwn oedd y Grant Cynaliadwyedd Sector (SSG) ac fe'i defnyddiwyd i gynorthwyo 66 o sefydliadau cyngor cyfreithiol nid-er-elw yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22.

Disgwyliwyd y byddai'r cyllid yn galluogi derbynwyr y grant i wneud y canlynol:

1. Parhau â gwasanaethau cynghori i ddelio ag effaith barhaus y pandemig COVID-19;
2. Cynyddu mynediad at gyfiawnder drwy arloesi strategol;
3. Sicrhau mynediad eang at gyfiawnder drwy ddyfarnu grantiau i wella mynediad at gyngor i bobl na fyddent yn gallu cael ato fel arall (yn cynnwys unigolion agored i niwed na allent gael mynediad at gymorth ar-lein).

O dan amodau'r grant, roedd gofyn i dderbynwyr y grant adrodd ar y ffordd roeddent wedi defnyddio'r arian, yn ogystal â thracio lefel y ddarpariaeth y gallent ei chynnig. Mae'r data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys data monitro a gasglwyd yn ystod cyfnod cyllido'r grant ac ar ei ôl, mewn cyfweliadau lled-strwythuredig â sampl o saith derbynnydd grant, ac o adroddiad terfynol y CSASS er mwyn cymharu tueddiadau yn y sector.

[1] Mae adroddiad diwedd grant y CSASS ar gael i'w ddarllen yma: https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-specialist-advice-service-scheme-end-of-grant-report

## 1.2 Crynodeb o'r canfyddiadau

- **Yn gyffredinol, roedd y grant yn llwyddiannus gan mwyaf wrth gyflawni ei nodau, yn enwedig o ran sicrhau bod derbynwyr y grant yn aros yn weithredol a'u bod, os oedd angen, yn gallu addasu eu capasiti a'u dulliau darparu.** Swm cyfartalog y grantiau a wnaed drwy'r SSG oedd tua £44,815. Costau staff oedd yr eitem gwariant fwyaf, y gwariwyd tua 80% o'r cyllid arnynt, a hynny'n dangos bod derbynwyr y grant yn ei ddefnyddio'n bennaf i aros yn weithredol a pharhau i ddarparu gwasanaethau arbenigol. Roedd derbynwyr y grant wedi cofnodi gwariant hefyd ar dalu biliau, TG, a chostau amrywiol eraill fel sesiynau hyfforddi staff arbenigol.

- **Roedd yr adborth a gafwyd gan dderbynwyr y grant am effaith yr SSG yn gadarnhaol ac yn tystio i natur 'hanfodol' y gronfa.** Roedd yn ymddangos bod derbynwyr y grant wedi defnyddio'r cyllid grant mewn ffordd gyfrifol i sicrhau parhad gwasanaethau cynghori o ansawdd da, i gynyddu'r capasiti i ymateb i'r nifer cynyddol o achosion/cleientiaid, ac i gyflwyno dulliau a thechnoleg arloesol i ddarparu cyngor.

- **Ar ôl cael y cyllid yr SSG yn Awst 2021, roedd nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant wedi cynyddu ar y dechrau.** Ar ôl gostyngiad rhwng Medi a Rhagfyr 2021, roedd cynnydd wedyn yn nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth o fis Rhagfyr 2021 tan ddiwedd y cyfnod cyllido ym Mawrth 2022.Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, roedd y 66 o dderbynwyr grant wedi cofnodi iddynt roi cymorth i gleientiaid mewn mwy na 200,000 o achosion yn yr holl feysydd cyfraith (ac eithrio 'arall'). Roedd y cynnydd mewn cymorth wedi cynnwys y rhan fwyaf o'r meysydd cyfraith sifil, yn enwedig y meysydd lles cymdeithasol. Roedd y derbynwyr grant a gyfwelwyd wedi nodi iddynt deimlo bod cynnydd wedi bod yn y galw am gymorth o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig COVID-19 a'u bod wedi gorfod addasu eu capasiti a'u dulliau darparu i gwrdd â'r galw hwn.

- **Roedd y defnydd o wefannau wedi cynyddu'n gyson rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021 ac roedd y duedd ar ôl hynny ar i lawr.** Y nifer mwyaf o ymweliadau â gwefannau a gofnodwyd gan is-sampl o 31 o dderbynwyr y grant oedd hwnnw ym Medi 2021.

- **Yng nghyfnod cyllido'r SSG rhwng Awst 2021 a Mawrth 2022, ailddechreuwyd darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, tra oedd dulliau darparu o bell, fel y ffôn a'r e-bost, wedi aros yn boblogaidd hefyd.** Nododd derbynwyr y grant mai llacio'r cyfyngiadau cymdeithasol a'r angen i wasanaethu cleientiaid mwy agored i niwed a'r rheini na allent gael mynediad at TG oedd y prif resymau dros ailddechrau darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Cyfeiriodd nifer bach o dderbynwyr grant hefyd at ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau fel y rheini mewn canolfannau technoleg/mannau mynediad cymunedol ar gyfer cleientiaid a allai fod yn byw mewn ardaloedd anghysbell neu heb y gallu i gael mynediad at TG yn eu cartrefi.

- **Yn gyffredinol, mae'r gwerthusiad o'r SSG (a'r CSASS) wedi dangos bod grantiau hyblyg yn werthfawr i dderbynwyr grant gan eu bod yn amlygu ymddiriedaeth ar ran cyllidwyr ac yn caniatáu i dderbynwyr grant gwrdd ag anghenion cleientiaid yn y ffordd orau mewn amrywiaeth o arbenigeddau, lleoliadau, ac mewn sefydliadau o wahanol faint**. Er hynny, mae derbynwyr grant wedi nodi y byddai grantiau amlflwydd yn fwy defnyddiol wrth gwrdd â'r nodau hyn gan y byddent yn caniatáu i sefydliadau gynllunio'n strategol at y dyfodol.

- **Yn y rheng flaen, roedd cyllid hyblyg wedi galluogi derbynwyr y grant i gyflogi a chadw staff profiadol neu arbenigol er mwyn darparu gwasanaethau arbenigol yn ystod cyfnod ansefydlog.** Roedd hyn yn ganlyniad allweddol i'r SSG oherwydd yr ôl-groniad o achosion cleientiaid a oedd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Roedd y ffaith bod cyngor arbenigol yn parhau i fod ar gael o ganlyniad i gyllid yr SSG – yr help priodol ar yr adeg gynharaf posibl – wedi helpu i ddatrys achosion ac osgoi gwaethygu diangen ym mhroblemau cleientiaid.

# 2. Cyflwyniad

Yn dilyn cychwyniad y pandemig COVID-19, darparwyd £5.4 miliwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i ddarparwyr cyngor cyfreithiol arbenigol nid-er-elw, drwy grant y Cynllun Gwasanaethau Cynghori Arbenigol COVID-19 (CSASS). O'r cyfanswm hwn, dosbarthwyd £3 miliwn i ganolfannau cyfraith drwy Rwydwaith y Canolfannau Cyfraith (LCN) ac aeth £2.4 miliwn i gronfa gyfunol o'r enw Cronfa Cyfiawnder Cymunedol (CJF) i gynorthwyo 72 o sefydliadau cyngor cyfreithiol arbenigol ledled Cymru a Lloegr.Roedd grant y CSASS wedi helpu sefydliadau i beidio â chau ac aros yn weithredol er mwyn darparu gwasanaethau cyngor cyfreithiol arbenigol yn dilyn cychwyniad y pandemig COVID-19. Er bod grant y CSASS wedi dod i ben ym Mawrth 2021, roedd effaith y pandemig COVID-19 yn parhau i gael ei theimlo gan y sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw, a oedd eisoes yn gweithredu ar lai o incwm a chapasiti. Cyhoeddwyd yr adroddiad diwedd grant[2] ochr yn ochr â stori newyddion[3] ar wefan GOV.UK yn dangos effaith hanfodol y gronfa.

Er mwyn parhau i gynorthwyo'r sector, adnewyddodd yr MoJ ei buddsoddiad yn y CJF gan roi £2 miliwn yn ychwanegol ym Mawrth 2021. Yr enw ar y buddsoddiad newydd hwn, yn rhan o Gam Dau y CJF, oedd y Grant Cynaliadwyedd Sector (SSG) am mai ei nod oedd cynorthwyo sefydliadau wrth iddynt barhau i brofi effaith y pandemig COVID-19, gan roi'r gallu i greu gweledigaeth dymor hwy i hyrwyddo cydweithio ac arloesi yn y sector. Drwy gyfrannu i'r gronfa gyfunol, roedd yr SSG yn cefnogi mwy o sefydliadau a grantiau nag a fyddai'n bosibl fel arall, gan gynyddu effaith yr arian a oedd ar gael. Drwy gydweithio â chyllidwyr annibynnol, roedd y grantiau cyfunol yn rhoi'r gallu i wario arian a oedd heb fod yn rhan o'r SSG ar ôl Mawrth 2022, gan ddarparu hyblygrwydd i dderbynwyr y grant i wneud cynnydd ar gyflawni eu canlyniadau tymor hir. Felly, roedd y grant hwn yn ceisio creu rhwydwaith lle byddai sefydliadau'n gallu troi at ei gilydd yn y dyfodol, wedi i'r cyfnod cyllido ddod i ben.

Darparwyd cyllid i 66 o sefydliadau drwy'r SSG ar Gam Dau y CJF. Roedd 30 o'r rhain wedi derbyn cyllid hefyd ar Gam Un drwy'r CSASS. Roedd yr holl sefydliadau wedi

2 https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-specialist-advice-service-scheme-end-of-grant-report

3 https://www.gov.uk/government/news/responding-to-the-rapid-rise-in-demand-for-free-legal-advice

gwneud cais am yr SSG drwy borth CJF cyffredin ac wedi'u dewis drwy broses ymgeisio a reolwyd gan y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder (ATJF) ar ran yr MoJ.

Y prif sbardun i'r SSG oedd bod y sector cyngor cyfreithiol yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu pobl pan fyddant ar bwynt anodd yn eu bywydau. Gall pobl sydd â phroblemau cyfreithiol fod dan straen, heb y gallu i feddwl yn rhesymegol, ac wedi dod i argyfwng. Mae tystiolaeth wedi dangos yn gyson fod gorbryder a gofid yn gallu gwaethygu yn yr unigolyn os nad oes rhywun y gall siarad ag ef, beth bynnag fo'i allu cyfreithiol (Pleasance, et al., 2011) (Franklyn, Budd, Verrill, a Willoughby, 2017). Mae ffactorau fel straen, gorbryder a gofid yn gallu ei gwneud yn fwy anodd i unigolion wneud defnydd o wefan neu gymorth rhithwir, a gellid rhoi gwell cymorth iddynt yn lle hynny drwy ymweliad wyneb yn wyneb i gael cyngor cyfreithiol. Felly, roedd y cyllid yn bwysig i sicrhau bod darpariaeth o wasanaethau wyneb yn wyneb yn parhau i fod ar gael, lle'r oedd cyfyngiadau'n caniatáu, ar gyfer yr unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf am hynny.

Roedd tri nod i'r SSG. Roedd disgwyl y byddai'r cyllid yn galluogi derbynwyr y grant i wneud y canlynol:

1. Parhau â gwasanaethau cynghori i ddelio ag effaith barhaus y pandemig COVID-19;
2. Cynyddu mynediad at gyfiawnder drwy arloesi strategol;
3. Sicrhau mynediad eang at gyfiawnder drwy ddyfarnu grantiau i wella mynediad at gyngor i bobl na fyddent yn gallu cael ato fel arall (yn cynnwys unigolion agored i niwed na allent gael mynediad at gymorth ar-lein).

Yn fwy cyffredinol, mae'r CJF yn ceisio hybu cydweithio ac arloesi rhwng sefydliadau'r sector cyngor cyfreithiol gan helpu i greu rhwydwaith lle bydd sefydliadau'n gallu troi at ei gilydd yn y tymor hwy. Y nod yma yw rhoi mantais i dderbynwyr grant, o ganlyniad i gofnodi data yn gyson ar y ffrydiau cyllido gan arbed amser ac adnoddau, ac i gyllidwyr fel yr MoJ, drwy eu helpu i gydweithio i chwilio am gyfleoedd i ddangos gwerth cyllid a chyngor cyfreithiol cynnar yn fwy cyffredinol.

Mae'r adroddiad gwerthuso diwedd grant hwn wedi'i seilio ar **ddata monitro a gasglwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022**. Rhyddhawyd cyllid yr SSG yn ystod y cyfnod hwn, yn Awst 2021.Er mwyn cyfrannu at ddatblygu polisi ac asesu cyflwr y sector dros gyfnod hwy, mae'r dadansoddiad yn cynnwys data o fis Ebrill 2021 i fis Gorffennaf 2021, er nad oedd

sefydliadau'n cael eu hariannu drwy'r SSG bryd hynny. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio hefyd at ddadansoddiad yn adroddiad diwedd grant y CSASS er mwyn rhoi'r canlyniadau yn eu cyd-destun a chysylltu themâu, er ei bod yn bwysig nodi bod y CSASS a'r SSG yn destun ymarferiadau casglu data ar wahân a oedd yn cynnwys gwasgariad gwahanol o sefydliadau.

Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'u cyflwyno mewn fformat cyfanredol ac felly gallent gelu amrywiadau rhwng gwahanol dderbynwyr grant.

# 3. Dosbarthu Cyllid

Yn yr adran hon o’r adroddiad, disgrifir y ffordd y cafodd yr SSG ei ddosbarthu rhwng y 66 o dderbynwyr grant, yn cynnwys dadansoddiad o nifer y sefydliadau a gafodd gyllid, lleoliadau’r sefydliadau a gafodd gymorth, y galw am y grant, a gwariant.

## 3.1 Sefydliadau a ariannwyd

**Nifer y sefydliadau a gafodd gymorth**

### Y Prif Bwyntiau

- Roedd cyfanswm o 66 o sefydliadau wedi cael grant.
- Er bod y nifer hwn yn gyfran fach o’r holl sefydliadau sy’n darparu cyngor cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr,[4] mae hwn yn fuddsoddiad ariannol sylweddol a helpodd y sector ar amser tyngedfennol.

Roedd cyfanswm o 66 o sefydliadau wedi cael cyllid a ddosbarthwyd gan yr ATJF drwy’r CJF. Darperir rhestr lawn o’r sefydliadau a ariannwyd, ynghyd â gwerth y grant a gawsant, yn nhabl 1 yn yr Atodiad. Roedd Cam Dau y CJF yn gylch grant drwy wahoddiad yn unig ar gyfer derbynwyr grant Cam Un y CJF, am fod y cyllid a oedd ar gael yn gyfyngedig. Am fod y gronfa’n gyfyngedig, roedd angen rhoi blaenoriaeth i sefydliadau a oedd â’r angen mwyaf am gymorth i barhau â’u gwasanaethau arbenigol. Roedd y ceisiadau aflwyddiannus wedi cael eu gwrthod yn bennaf oherwydd y canfyddiad bod yr ymgeiswyr yn gallu parhau dros y flwyddyn i ddod, yn hytrach na bod yn adlewyrchiad o’r gwasanaeth roeddent yn ei ddarparu neu ei effaith.

Gyda’i gilydd, mae’r 66 o sefydliadau a ariannwyd yn gyfran fach o’r holl ddarparwyr cyngor cyfreithiol arbenigol nid-er-elw yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, ar sail data anecdotaidd a data am wariant gan dderbynwyr y grant, gwelir bod y cyllid wedi rhoi hwb gwerthfawr i helpu’r sector i ddarparu ar gyfer yr anghenion cyfreithiol a oedd yn codi o’r pandemig COVID-19, a bod yr effaith o hynny wedi’i chynyddu drwy gyfrannu i’r CJF – cronfa gyfunol a oedd yn gallu cefnogi 179 o sefydliadau cyngor arbenigol ledled Cymru,

[4] Roedd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder wedi nodi 432 o elusennau cofrestredig yn ei Adroddiad ar Gyllid Cyngor Cyfreithiol Arbenigol a oedd yn darparu cyngor cyfreithiol arbenigol yng Nghymru a Lloegr yn 2019-2020. Mae ar gael yn https://atjf.org.uk/specialist-legal-advice-funding-report.

Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy grantiau o £11.59 miliwn o fis Mawrth 2020 (Y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol, 2021).

**Lleoliad y sefydliadau**

**Y Prif Bwyntiau**

- Roedd y cymorth wedi'i wasgaru ledled Cymru a Lloegr, ac roedd derbynwyr y grant yn gweithio ym mhob un o ranbarthau Cymru a Lloegr. O'r 66 o sefydliadau a ariannwyd, roedd 21 (32%) o sefydliadau'n gweithredu yn ardal Llundain Fwyaf.

Roedd data monitro wedi darparu gwybodaeth am y rhanbarthau lle'r oedd sefydliadau'n darparu cymorth yng Nghymru a Lloegr.

**Ffigur 1: Rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr a gynorthwywyd gan dderbynwyr y grant**

| Region | Rhanbarth |
|---|---|
| South West Wales | De-orllewin Cymru |
| South East Wales | De-ddwyrain Cymru |
| Mid Wales | Canolbarth Cymru |
| North Wales | Gogledd Cymru |
| East of England | Dwyrain Lloegr |
| East Midlands | Dwyrain Canolbarth Lloegr |
| Yorkshire and the Humber | Swydd Efrog a Humber |
| North East | Gogledd-ddwyrain Lloegr |
| North West | Gogledd-orllewin Lloegr |
| West Midlands | Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| South West | De-orllewin Lloegr |
| South East | De-ddwyrain Lloegr |
| Greater London | Llundain Fwyaf |
| Number of organisations | Nifer y sefydliadau |

**Sylwer:** Gall derbynwyr y grant fod yn elusennau cenedlaethol ac felly gallent ddarparu cymorth ledled y DU, yn cynnwys darparu cymorth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, defnyddiwyd cyllid yr SSG i ddarparu cymorth yng Nghymru a Lloegr yn unig.

Mae Ffigur 1 yn dangos yr holl ranbarthau yng Nghymru a Lloegr a gafodd gymorth drwy'r gronfa. O'r 66 o sefydliadau a ariannwyd, roedd 21 (32%) sefydliad yn gweithredu yn ardal Llundain Fwyaf. Y rhanbarthau lle'r oedd y niferoedd mwyaf o sefydliadau wedyn oedd Dwyrain Lloegr: 14 sefydliad (21%); Dwyrain Canolbarth Lloegr: 13 sefydliad (20%); a De-ddwyrain Lloegr: 12 sefydliad (18%).

Roedd y dasg o ganfod pa ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a oedd â'r angen mwyaf am gyngor cyfreithiol arbenigol yn un gymhleth oherwydd natur ddigyswllt y sector cyngor cyfreithiol a heriau wrth gasglu data cyson am gleientiaid. Felly, nid oedd yn bosibl

dweud a oedd dosbarthiad y gwasanaethau a ariannwyd yn cyfateb i'r patrymau angen cyffredinol, am mai dim ond data am y cyflenwad o wasanaethau y gellid eu casglu drwy'r adroddiadau, hynny yw, am yr ardaloedd lle'r oedd cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, roedd natur hyblyg y grantiau yn caniatáu i sefydliadau ymateb i'r galw lleol (o fewn cyfyngiadau eu harbenigedd). Felly, er nad oedd modd canfod patrymau yn yr angen am gyngor cyfreithiol, roedd y data yn adlewyrchu'r galw presennol yn y meysydd cyfraith roedd derbynwyr y grant yn arbenigo ynddynt.

## 3.2 Y galw am y grant

**Maint cyfartalog y grant**

### Y Prif Bwyntiau

- Roedd y rhan fwyaf o dderbynwyr y grant wedi cael cyllid a oedd yn cyfateb i'r ceisiadau a wnaethant.
- Maint canolrifol y grant oedd £48,250 a maint cyfartalog y grant oedd £44,815.

Roedd sefydliadau'n cyflwyno ceisiadau am y symiau y teimlent fod eu hangen. Ar sail y profiad a gafwyd wrth weinyddu grant y CSASS, yr arbenigedd cyffredinol a gwybodaeth am y sector ymysg y cyllidwyr annibynnol a rhanddeiliaid y sector yng Ngrŵp Llywio y CJF, roedd modd gwneud asesiad teg a thrwyadl o gymhwyster, yr angen am flaenoriaethu, a'r sefyllfa ariannol. Cyflwynir y data hyn yn Ffigur 2 drwy ddangos y gymhareb rhwng gwerth y grant y gwnaeth sefydliadau gais amdano a gwerth y grant a gafwyd.

**Sylwer: Gwerth y grant a ddyfarnwyd yw cyfanswm gwerth y grant a ddyfarnwyd i sefydliad o dan y CJF gan yr holl gyllidwyr, yn cynnwys yr MoJ.**

**Ffigur 2: Cymhareb rhwng gwerth y grant y gwnaeth sefydliadau gais amdano a gwerth y grant a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| Number of organisations | Nifer y sefydliadau |
| Ratio | Cymhareb |

Roedd mwyafrif y sefydliadau wedi cael swm a oedd yn agos i'r hyn a geisiwyd, gan fod 49 o'r 66 o sefydliadau wedi cael swm a oedd o fewn ±25% (cymarebau 0.75 – 1.25) i'r hyn a geisiwyd. Cafodd 15 sefydliad (23%) swm a oedd rhwng 50% a 75% o'r swm a geisiwyd (sef cymhareb o 0.5-0.75), a dim ond 2 sefydliad (3%) a gafodd hanner neu lai na hanner y swm a geisiwyd (sef cymhareb o 0.25 – 0.5).

Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad gwerth y grant rhwng derbynwyr y grant.

**Tabl 1: Dosbarthiad gwerth y grant rhwng derbynwyr y grant**

| | **Lleiaf** | **Canolrifol** | **Mwyaf** | **Cymedrig** |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth y grant (£) | 10,000 | 48,250 | 70,000 | 44,815 |

Y grant lleiaf a ddyfarnwyd oedd £10,000 a'r mwyaf oedd £70,000. Y swm canolrifol a gafodd sefydliadau oedd £48,250, a gwerth y grant cyfartalog (cymedrig) oedd £44,815.

## 3.3 Gwariant y grant

### Y Prif Bwyntiau

- Roedd derbynwyr y grant wedi gwario'r rhan fwyaf (~80%) o'r cyllid ar gostau staff, yn cynnwys cyflogau, hyfforddiant, a recriwtio, a 12% ar gostau eraill i redeg y sefydliad.
- I raddau llai, roedd derbynwyr y grant wedi cofnodi gwariant ar dalu biliau, ar TG, ac ar gostau amrywiol eraill fel sesiynau hyfforddi staff arbenigol.

Rhannwyd yr holl gyllid erbyn Hydref 2021 a rhoddwyd cyfrif am y gwariant. Drwy'r SSG, roedd yr MoJ wedi cyfrannu cyfanswm o £1,950,000 i'r CJF, a ddosbarthwyd i 66o sefydliadau rheng flaen. Nid yw hyn yn cynnwys costau gweinyddu o £50,000 a gasglwyd gan yr ATJF, sef gweinyddwr y grant. Yn ystod y cyfnod cyllido rhwng Awst 2021 a Mawrth 2022,roedd derbynwyr y grant wedi gwario'r holl gyllid grant a ddyrannwyd iddynt yn unigol.

Roedd derbynwyr y grant wedi cofnodi gwariant misol ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng Awst 2021 a Mawrth 2022. Mae Tabl 2 yn dangos y proffil gwariant cyfanredol rhwng y cyfan o'r 66 o dderbynwyr grant yn ôl y prif weithgareddau a ariannwyd.

**Tabl 2: Proffil gwariant cyfanredol rhwng y cyfan o'r 66 o dderbynwyr grant yn ôl y gweithgareddau a ariannwyd**

| Gweithgareddau a ariannwyd | Cyfanswm fesul gweithgarwch (£) | Cyfran ygrant a wariwyd (%) |
|---|---:|---:|
| Costau staff | 1,543,198 | 79% |
| Costau swyddfa a chostau eraill i redeg y sefydliad | 229,527 | 12% |
| Prynu neu uwchraddio cyfarpar TG a chyfathrebu | 84,238 | 4% |
| Hyfforddi staff i ddefnyddio cyfarpar a meddalwedd newydd | 3,240 | <1% |
| Cyflogi staff i gynyddu capasiti | 49,631 | 3% |
| Ehangu'r gwasanaethau a gynigir | 8,250 | <1% |
| Ymestyn cyrhaeddiad daearyddol gwasanaethau | 3,919 | <1% |
| Gwariant arall | 27,999 | 1% |

Roedd derbynwyr y grant wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'r grant (79%) i dalu costau staff presennol. Roedd hyn yn cynnwys gwariant ar gyflogau, symud staff o'r cynllun ffyrlo, cyflogi staff newydd, a gwasanaethau cyfieithu, yn cynnwys cyfieithu ar y pryd. Mae'r patrwm gwariant hwn yn dangos bod y grant wedi llwyddo yn ei nod o gynnal gwasanaethau cynghori i ymateb i effaith barhaus y pandemig COVID-19. Ategwyd hyn gan dderbynwyr y grant:

> "Rydw i am ailddatgan pa mor hanfodol yw'r cyllid hwn i ni. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwy na chwarter ein cyllid wedi dod o gymorth cyfreithiol tai ac mae'n anodd iawn cael gafael arno ar hyn o bryd am fod nifer yr achosion cymwys sy'n dod i'r llys yn parhau'n eithaf bach. Er hynny, ar sail cyfarfodydd a gefais i â Grŵp Strategol Digartrefedd y cyngor lleol, DWP, cymdeithasau tai etc., rydw i wedi dod i'r casgliad y bydd problemau o ran lles, budd-daliadau, dyled a thai yn y pen draw yn dod yn fwy amlwg yn ystod y gaeaf. Felly, heb y cyllid hwn, mae'n anodd gweld sut byddem wedi dal ati a gallu cynnig gwasanaeth, yn barod i ymateb, fel rydyn ni heddiw."

Roedd sefydliadau wedi gwario 12% o'r grant ar gostau rhedeg y sefydliad, a oedd yn cynnwys gwariant mewn tri is-gategori: (i) *costau swyddfa* fel rhai ar atgyweirio / amnewid cyfarpar diffygiol; prynu / gosod cyfarpar ar gyfer cadw pellter cymdeithasol; cyfarpar diogelu personol; cyflenwadau swyddfa; (ii) *costau rhedeg eraill* fel talu rhent; talu am gyfleustodau a biliau eraill; atgyweirio adeiladau; a (iii) *cyfarpar swyddfa gweithio o bell/gweithio gartref* fel cadeiriau swyddfa, desgiau, a chyflenwadau swyddfa eraill.

Dim ond 4% o'r grant roedd sefydliadau wedi'i wario ar brynu neu uwchraddio cyfarpar TG a chyfathrebu fel gliniaduron, ffonau clyfar, ffonau symudol, ffonau desg, monitorau, a pheiriannau argraffu. Nodwyd yn adroddiad grant y CSASS[5] y byddai'r categori hwn yn gallu cynnwys gwariant uchel: nid oedd hyn yn wir yn achos yr SSG. Yn ystod cyfweliadau, roedd derbynwyr y grant wedi nodi nad oeddent wedi uwchraddio cyfarpar TG pan oedd y pandemig COVID-19yn ei anterth pan oedd sefydliadau wedi gorfod troi at weithio o bell yn 2020-2021, a'u bod wedi defnyddio grantiau eraill lle'r oedd amodau ar wariant ar TG yn gofyn am wario ar gyfarpar newydd:

5 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1039750/csass-grant-report.pdf

> “Pan ddaeth y pandemig, roedden ni eisoes wedi cael trwydded ar gyfer Microsoft Teams, felly doedden ni ddim yn gorfod gwario arian ar feddalwedd, ond mwy ar gael cyfarpar ffisegol fel gliniaduron pan oedden ni wedi defnyddio math arall o gyllid… Roedden ni’n meddwl ei bod yn well defnyddio’r cyllid hwn i gadw staff...”

Yn yr un modd â grant y CSASS, roedd derbynwyr y grant SSG hefyd wedi nodi bod natur hyblyg y grant yn caniatáu ailddyrannu mathau eraill o gyllid o fewn y sefydliad, gan sicrhau mwy o effaith yng nghyd-destun y gostyngiad mewn incwm o gymorth cyfreithiol a chyfyngiadau ar wariant ar brosiectau penodol:

> “Mae’r cyllid hwn yn hanfodol i ni. Rydyn ni’n wynebu heriau mawr, nid yn unig y cynnydd yn nifer y cleientiaid, ond hefyd paratoi ar gyfer penderfyniadau pwysig gan gyllidwyr ar ailgomisiynu gwasanaethau ar gyfer 2022/23 a chynllunio i ddychwelyd yn ddiogel i’n swyddfeydd newydd. Mae’n ein galluogi i barhau i ddarparu ein holl wasanaethau ac i wario’r arian lle’r ydyn ni wedi gweld yr angen mwyaf amdano.”

Gwariwyd cyfran gymharol fach ar gyflogi staff i gynyddu capasiti (3%) ac ar wariant arall (1%). Roedd y gwariant o dan ‘gwariant arall’ a ariannwyd gan y grant yn cynnwys ffioedd archwilio, ffioedd tanysgrifio am aelodaeth Swyddfa’r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC), gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, treuliau gwirfoddolwyr, a hyfforddiant arbenigol proffesiynol i staff fel hwnnw ar gyfer Tystysgrif Ymarfer Cyfreithiwr a chymwysterau i Gynghorwyr Mewnfudo.

# 4. Canlyniad 1: Cynnal gwasanaethau cynghori i ddelio ag effaith barhaus y pandemig COVID-19

Yn yr adran hon o’r adroddiad, rydym yn asesu’r lefelau gweithgarwch ymysg derbynwyr y grant er mwyn cael trosolwg ar y defnydd o’r grant a’i effaith mewn gwahanol feysydd cyfraith, ar y dulliau darparu a ddefnyddiwyd gan dderbynwyr y grant ac ar lefel y defnydd o wefannau.

Er mwyn deall y cyd-destun ehangach i’r tueddiadau a nodwyd yn y data, tynnwyd sylw at nifer o ddigwyddiadau e.e. dileu cyfyngiadau cymdeithasol mewn perthynas â’r pandemig COVID-19 ym mis Mehefin 2021. Gwneir hyn er mwyn gweld y data yn erbyn y cefndir o newidiadau cymdeithasol perthnasol a ddigwyddodd yr un pryd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw’r cyd-ddigwyddiadau a ddisgrifir yn dangos perthynas achosol uniongyrchol.

## 4.1 Nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant

### Y Prif Bwyntiau

- Roedd derbynwyr y grant wedi cofnodi’r lefelau uchaf o achosion lle rhoddwyd cymorth (19,315) ym mis Mehefin 2021, yr un pryd â dileu’r holl gyfyngiadau cymdeithasol gan y Llywodraeth.
- Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, roedd y 66 o dderbynwyr grant wedi cofnodi iddynt ddarparu cymorth i gleientiaid mewn 201,861 o achosion yn yr holl feysydd cyfraith (ac eithrio ‘arall’).
- Roedd cynnydd yn nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth o fis Rhagfyr 2021 hyd ddiwedd y cyfnod cyllido ym Mawrth 2022.
- Roedd derbynwyr grant a gyfwelwyd wedi nodi iddynt deimlo bod cynnydd yn y galw am gymorth o gymharu â lefelau cyn y pandemig COVID-19 a’u bod wedi gorfod ailaddasu eu capasiti a dulliau darparu i gwrdd â’r galw hwn.

Un mesur allweddol y ceisiwyd ei gofnodi yn y data monitro oedd lefel y gweithgarwch a gyflawnwyd gan dderbynwyr y grant yn ystod y cyfnod adrodd (mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022).

I'r perwyl hwnnw, gofynnwyd i dderbynwyr y grant adrodd ar nifer y cleientiaid neu 'achosion' a gafodd gymorth ym mhob un o'r 11 maes cyfraith sifil.[6] Hysbyswyd derbynwyr y grant fod y cleient i gael ei gofnodi ar gyfer pob maes cyfraith a oedd yn berthnasol os oedd yn dod i sesiwn gynghori ac yn cael cymorth mewn nifer o feysydd cyfraith. Y fantais yn hyn o beth oedd ei fod yn symleiddio'r ffordd i ddosbarthu cleient a oedd yn dod i drafod nifer o broblemau cydredol. Am resymau tebyg, roedd y gwerthoedd yn cael eu hailosod rhwng pob cyfnod cofnodi misol, felly os oedd yr un cleient yn cael ei gofnodi ar gyfer yr un mater ym mis Mehefin ac ym mis Gorffennaf, yna byddai'n cael ei fesur yn y ddau fis hynny.

O ganlyniad i'r dull hwn o weithredu, dylid nodi:

- Y dylid arfer rhywfaint o ofal wrth ddehongli ffigurau, gan nad oes modd gwneud cyfanswm ohonynt ar gyfer un math o fater cyfreithiol na chymryd eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r amser a gymerwyd i gynorthwyo'r nifer o unigolion a nodwyd.
- Bod y ffigurau'n cynrychioli gwaith derbynwyr y grant yn ei gyfanrwydd ac nid o reidrwydd y gweithgareddau penodol a oedd wedi'u hariannu'n uniongyrchol drwy'r grant. Yn aml, ni fydd darparwyr cyngor cyfreithiol arbenigol yn rhedeg prosiectau ar wahân a ariennir o wahanol gronfeydd.Yn hytrach, ceir llawer o gymysgu rhwng ffrydiau cyllido a gweithgareddau.Gan ei bod yn amhosibl eu gwahanu, y dewis mwyaf ymarferol oedd casglu data ar gyfer y sefydliad, yn hytrach na cheisio eu dadgyfuno.
- Bod bwriad i'r dull gwerthuso fod yn un cymesur oherwydd y pwysau a oedd ar dderbynwyr y grant. Felly, casglwyd y data a oedd ar gael yn hytrach na sefydlu systemau newydd. O ganlyniad i hyn, roedd y dull o weithredu'n un amrywiol am fod yr arferion cofnodi yn amrywio (er enghraifft, gellid cymryd bod 'cymorth i gleientiaid' yn golygu niferoedd y cleientiaid a/neu nifer y materion a drafodwyd gan sefydliadau).

Mae Ffigur 3 yn dangos cyfanswm y materion lle rhoddwyd cymorth rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022. Dylid nodi bod y niferoedd a welwyd yn seiliedig ar gapasiti derbynwyr y grant i ddarparu cymorth ac nid o reidrwydd ar y galw gan gleientiaid.

---

6 Lloches a Mewnfudo, Gofal Cymunedol, Dyled, Anabledd, Gwahaniaethu, Addysg, Cyflogaeth, Tai, Iechyd Meddwl, Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol, a Budd-daliadau

**Ffigur 3: Dosbarthiad misol yr holl achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant rhwng yr holl feysydd cyfraith[7]**

| | |
|---|---|
| Number of cases supported | Nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth |
| August 2021 Start of SSG | Awst 2021 Dechrau'r SSG |
| March 2022 End of SSG funding | Mawrth 2022 Diwedd cyllid yr SSG |
| June 2021 End of social restrictions | Mehefin 2021 Diwedd y cyfyngiadau cymdeithasol |
| Apr | Ebr |
| May | Mai |
| Jun | Meh |
| July | Gor |
| Aug | Awst |
| Sep | Medi |
| Oct | Hyd |
| Nov | Tach |
| Dec | Rhag |
| Jan | Ion |
| Feb | Chw |
| Mar | Maw |
| Month, year | Mis, blwyddyn |

Nid yw'r data uchod yn cynnwys ffigurau a gofnodwyd ar gyfer meysydd cyfraith 'eraill' gan fod y rhain y tu allan i gwmpas cyfraith sifil gan mwyaf. Yn ogystal â hynny, mae ffigurau ar gyfer 'lloches' a 'mewnfudo' wedi'u cyfuno i drin 'lloches a mewnfudo' fel un maes cyfraith. Dros y cyfnod cyllido, yn eu crynswth, cofnododd derbynwyr y grant eu bod wedi darparu cymorth mewn 201,861 o achosion (heb gyfrif meysydd cyfraith 'eraill' lle rhoddwyd cymorth mewn cyfanswm o 28,554 o achosion).

Yn yr un modd â data eraill gan y sector cyngor cyfreithiol, disgwylir rhywfaint o amrywio misol yn nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth, yn cynnwys effaith dymhorol tua mis Rhagfyr pan fydd tuedd i'r llwyth achosion leihau dros dro. Er bod rhai o'r amrywiadau

[7] Mae cymorth Lloches a Mewnfudo wedi'u cyfuno am nad oedd rhai derbynwyr grant yn gallu rhannu'r cymorth i gleientiaid rhwng y ddau gategori.

misol yn cyd-ddigwydd â digwyddiadau ar yr adegau hynny, er enghraifft y diwedd ar gyfyngiadau cymdeithasol ym Mehefin 2021, nid yw'r data yn dangos achosiaeth uniongyrchol a gallai nifer o ffactorau ddylanwadu ar y tueddiadau tymor byrrach a welwyd.

Yn ystod cyfweliadau, roedd rhai derbynwyr grant wedi sôn am ddefnyddio'r cyfnod ar ôl dileu'r cyfyngiadau cymdeithasol (Mehefin/Gorffennaf 2021) i addasu eu seilwaith ffisegol, capasiti sefydliadol, a dulliau darparu i ymateb i'r newidiadau yn natur a nifer y materion a wynebwyd gan gleientiaid. Roedd un derbynnydd grant wedi myfyrio ar ei brofiad yn ystod y cyfnod hwn gan nodi ei fod wedi gorfod ymdopi'n sydyn â chynnydd yn nifer y materion/achosion pan ddaeth y cyfyngiadau cymdeithasol i ben, gan geisio dod o hyd i ffyrdd i gynyddu capasiti:

> "Cyn y pandemig, roedden ni'n arfer cael 200-250 o alwadau yr wythnos. Roedd hyn wedi codi i 400 o alwadau yr wythnos ym Mehefin 2021, a nawr *(Mehefin 2022 ar adeg y cyfweliad),* rydyn ni'n cael 600 o alwadau yr wythnos – felly mae'r cynnydd yn y galw wedi para. Ar hyn o bryd, mae 55-66% o anghenion y cleientiaid yn cael eu diwallu …Cafwyd llawer o bwysau i weithio wyneb yn wyneb (ers Mehefin 2021), ac rydyn ni bellach wedi agor wyth prif wasanaeth rydyn ni'n gorfod eu cynnal drwy sgwrsio dros y ffôn a'r we. Fodd bynnag, mae'n mynd yn fwy anodd llenwi swyddi i gwrdd â'r galw hwn – dydy'r dulliau hyfforddi ddim ar gael – bydd y rhai sy'n gadael prifysgol â gradd yn y gyfraith yn mynd yn fargyfreithwyr, nid i weithio i elusennau am £23,000 y flwyddyn… a dydy gwirfoddolwyr ddim yn ateb tymor hir…"

Nododd Cyngor Ar Bopeth (CAB) (mae'r MoJ wedi ariannu chwe chanolfan CAB drwy'r SSG hwn a phedair CAB drwy'rCSASS yng ngham un y cyllid o'r CJF) ei fod wedi torri ei record am y trydydd mis yn olynol ym Mawrth 2022, ar gyfer darparu cymorth mewn argyfwng. Ym Mawrth 2022, roedd yr elusen wedi atgyfeirio bron 24,000 o bobl i fanciau bwyd neu fathau eraill o gymorth elusennol, cynnydd o 44% o gymharu â'r un cyfnod yn 2021.[8] Er mai dim ond at ddiwedd y cyfnod cyllido ym Mawrth 2022 y casglwyd data gan dderbynwyr y grant, mae data mwy diweddar gan CAB (e.e.ei ddangosfwrdd Costau Byw)[9] yn cynnig mewnwelediad i'r ffordd y mae anghenion am gyngor yn datblygu wrth i unigolion a'r economi wynebu pwysau ariannol cynyddol.

8 (Cyngor Ar Bopeth, 2022). Yr erthygl ar gael yn: 'https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/about-us1/media/press-releases/citizens-advice-crisis-support-record-broken-again-in-march/'

9 https://public.flourish.studio/story/1634399/

Roedd rhai derbynwyr grant sy'n darparu cymorth lloches a mewnfudo hefyd wedi nodi cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau. Fel y nododd un ohonynt:

> "Roedd y galw wedi cynyddu'n sylweddol – yn bennaf lle'r oedd penderfyniadau a oedd wedi'u gohirio o'r blaen gan y Swyddfa Gartref yn ystod y pandemig wedi dod drwodd. Mae rhai pobl (ceiswyr lloches) yn dal i fod mewn gwestai etc a'u ceisiadau wedi'u gwrthod …Hefyd yn ystod y pandemig, ychydig iawn o bobl oedd ar y strydoedd. Ond oherwydd y sefyllfa bresennol, mae pobl yn cael eu hysgogi gan y ffaith iddyn nhw fod yma am flynyddoedd ac am nad oes tystiolaeth ganddyn nhw y byddai eu 'caniatâd i aros yn ôl disgresiwn' wedi gallu dod i ben. Mae gennyn ni bobl rydyn ni heb glywed ganddyn nhw ers 2017 yn dod yn ôl i gael cymorth. Mae'n waeth na'r lefelau cyn y pandemig, mae ein gweithwyr achos yn gweithio'n ddiflino i glirio'r ôl-groniad…"

## 4.2 Achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant wedi'u dadgyfuno yn ôl Meysydd Cyfraith

**Y Prif Bwyntiau**

- Gwelwyd cynnydd yn y cymorth ym mron pob un o'r meysydd cyfraith ar ôl rhyddhau'r grant SSG yn Awst 2021.
- Budd-daliadau, Tai, Lloches a Mewnfudo, a Dyled oedd y pedwar maes cyfraith lle rhoddwyd y mwyaf o gymorth yn y cyfnod adrodd.
- Yn gyffredinol, roedd derbynwyr y grant yn gallu cynnal a/neu gynyddu eu capasiti gyda chymorth y grant er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am eu gwasanaethau dros y flwyddyn flaenorol. Er hynny, roedd derbynwyr y grant wedi nodi anawsterau a wynebwyd wrth recriwtio oherwydd yr angen am gymwysterau arbenigol i gynghorwyr i ddelio â natur newidiol a chlystyrog y materion cyfreithiol, maint cyflogau'r sector nid-er-elw o gymharu â'r sector preifat, a natur tymor byr y cyllido.

Yn yr adran hon, cyflwynir mewnwelediadau i niferoedd yr achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant mewn meysydd cyfraith penodol. Rhoddwyd cymorth i ddelio â chyfanswm o 201,861 o faterion neu achosion gan y 66 o dderbynwyr y grant rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022. Mae'r data am nifer yr achosion yn Ffigur 4 wedi'u dadgyfuno rhwng y meysydd cyfraith, ac yn dangos mai'r meysydd lle rhoddwyd cymorth i'r nifer mwyaf o achosion oedd Budd-daliadau (60,275), ac wedyn Tai (43,905), Lloches a Mewnfudo (40,965), a Dyled (19,547). Roedd y tri maes cyfraith lle rhoddwyd y mwyaf o gymorth

wedi aros yr un fath rhwng yr SSG a'r CSASS (hynny yw, Budd-daliadau, Lloches a Mewnfudo, a Thai). Fodd bynnag, mae maes cyfraith Dyled wedi disodli Cyflogaeth yn y pedwerydd safle yn ystod cyfnod cyllido'r SSG.[10] Mae'n werth nodi, er bod modd tynnu cymariaethau rhwng data'r SSG a data'r CSASS ar sail tueddiadau cyffredinol yn y sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw, fod angen arfer gofal wrth ddod i gasgliadau am mai dim ond 29 o'r 66 o sefydliadau a ariannwyd drwy'r ddau grant.

**Ffigur 4: Cyfanswm yr achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant yn yr holl feysydd cyfraith**

| | |
|---|---|
| Area of law | Maes cyfraith |
| Welfare Benefits | Budd-daliadau |
| Public and Administrative Law | Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol |
| Mental Health | Iechyd Meddwl |
| Housing | Tai |
| Employment | Cyflogaeth |
| Education | Addysg |
| Discrimination | Gwahaniaethu |
| Disability | Anabledd |
| Debt | Dyled |
| Community Care | Gofal Cymunedol |
| Asylum and Immigration | Lloches a Mewnfudo |
| Number of cases | Nifer yr achosion |

[10] Gweler adroddiad y CSASS, t.17, Ffigur.6, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1039750/csass-grant-report.pdf.

Ar ôl dadgyfuno'r ffigurau hyn ymhellach i ddangos dosbarthiad misol yr achosion lle rhoddwyd cymorth yn y pedwar maes cyfraith uchaf yn Ffigur 5,[11] gwelir cynnydd sydyn yn nifer yr achosion ar ôl Rhagfyr 2021 unwaith eto ym meysydd cyfraith Budd-daliadau, Lloches a Mewnfudo, a Thai.

**Ffigur 5: Meysydd cyfraith lle'r oedd y nifer mwyaf o achosion lle rhoddwyd cymorth gan dderbynwyr y grant yn fisol yn ystod cyfnod adrodd y grant (Ebrill 2021-Mawrth 2022)**

| Cases supported | Achosion lle rhoddwyd cymorth |
|---|---|
| Welfare benefits | Budd-daliadau |
| Housing | Tai |
| Asylum and Immigration | Lloches a Mewnfudo |
| Debt | Dyled |
| Apr | Ebr |
| May | Mai |
| Jun | Meh |
| July | Gor |
| Aug | Awst |
| Sep | Medi |
| Oct | Hyd |
| Nov | Tach |
| Dec | Rhag |
| Jan | Ion |
| Feb | Chw |
| Mar | Maw |
| Month, year | Mis, blwyddyn |

Fel y mae Ffigur 5 yn dangos, i gleientiaid yn wynebu materion Budd-daliadau y rhoddwyd y mwyaf o gymorth gan dderbynwyr y grant yn ddiwahân yn y cyfnod adrodd. Ym maes Budd-daliadau, cynorthwywyd y nifer mwyaf o gleientiaid (6,063) ym Mawrth 2022 a hwn hefyd oedd y nifer mwyaf o gleientiaid a gynorthwywyd yn y cyfnod adrodd

[11] Mae cymorth Lloches a Mewnfudo wedi'u cyfuno am nad oedd rhai derbynwyr grant yn gallu rhannu'r cymorth i gleientiaid rhwng y ddau faes cyfraith.

rhwng yr holl feysydd cyfraith.[12] Roedd y nifer ail fwyaf o achosion lle rhoddwyd cymorth yn ymwneud â chyngor ar Dai, lle gwelwyd cynnydd sydyn rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022 (4,117 o achosion yn ei anterth). Gwelwyd patrwm tebyg o gynnydd mewn cyngor ar Loches a Mewnfudo lle rhoddwyd cymorth mewn 3,978 o achosion yn y mis prysuraf ym Mehefin 2021.

Roedd derbynwyr grant sy'n darparu cyngor ar Loches a/neu Fewnfudo wedi nodi clystyru o ran materion ac ymddygiad ceisio cyngor ar faterion mwy diweddar o ganlyniad i sefyllfaoedd daearyddol-wleidyddol ar lefel ryngwladol, a oedd hefyd wedi ysgogi sefydliadau i uwchsgilio er mwyn darparu cyngor arbenigol:

> "…Nawr mae gennyn ni bobl hefyd yn gofyn am gyngor mewn perthynas â phethau daearyddol-wleidyddol mwy diweddar yn ymwneud â'r argyfwng yn Affganistan ac Wcráin. Un newid pwysig yw ein bod ni'n delio ychydig yn fwy â Mewnfudo na Lloches… Mae gen i gymhwyster mewn Mewnfudo a nawr mae cydweithiwr wedi hyfforddi i fod yn Gynghorydd Mewnfudo Lefel 2. Rydyn ni hefyd yn rhedeg gweithdai cyngor mewnfudo bob pythefnos i egluro'r gwahaniaeth rhwng caniatâd yn ôl disgresiwn a cheisio lloches etc…Byddwn ni'n sicrhau caniatâd yn ôl disgresiwn yn eithaf aml i gleientiaid ond mae hyn yn costio miloedd o bunnoedd a rhaid ei adnewyddu bob dwy flynedd a hanner… Felly mae natur y gwaith wedi newid a datblygu. Gan amlaf, bydd nifer o faterion dan sylw: achosion sydd hefyd yn gysylltiedig â cham-drin domestig …"

Budd-daliadau, Tai a Lloches a Mewnfudo oedd y tri maes cyfraith lle rhoddwyd y mwyaf o gymorth hefyd yng ngham un y cyllid drwy'r CSASS, a hynny'n dangos bod sefydliadau'n gweld angen parhaus am gyngor cyfreithiol yn y meysydd hyn. Y maes cyfraith lle rhoddwyd y cymorth pedwerydd mwyaf yng nghyfnod adrodd yr SSG oedd cyngor ar Ddyled: roedd nifer yr achosion wedi aros yn weddol gyson ond wedi cyrraedd ei anterth ym Mehefin 2021 pan gafwyd 2,088 o achosion. Felly roedd maes cyfraith Dyled wedi disodli Cyflogaeth fel y maes lle rhoddwyd y cymorth pedwerydd mwyaf o gymharu â data am grant y CSASS.

Yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd yn y cymorth ym mron pob un o'r meysydd cyfraith ar ôl rhyddhau grant yr SSGyn Awst 2021, er bod gostyngiad yn nifer yr achosion lle rhoddwyd cymorth ym mis Tachwedd 2021.

[12] Mae'n werth nodi bod y cyfnod hwn yn cyd-ddigwydd â'r adeg y byddai pobl wedi gallu cael eu hysbysu am uwchraddio eu budd-daliadau ac y byddai hyn wedi gallu sbarduno ymddygiad ceisio cyngor.

## 4.3 Effaith ar allu trefniadol derbynwyr y grant

Yn gyffredinol, roedd derbynwyr y grant yn gallu cynnal a/neu gynyddu capasiti gyda chymorth y grant er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am eu gwasanaethau. Er hynny, roedd derbynwyr y grant wedi nodi anawsterau a wynebwyd wrth recriwtio oherwydd yr angen am gymwysterau arbenigol i gynghorwyr i ddelio â natur newidiol a chlystyrog y materion cyfreithiol, maint cyflogau'r sector nid-er-elw o gymharu â'r sector preifat, a natur tymor byr y cyllido:

> "Wrth recriwtio, rydyn ni wedi canolbwyntio ar lenwi bylchau a chynnal capasiti, gan fod cyllidwyr wedi treulio amser yn ystod cyfnod y pandemig i fyfyrio ar y meini prawf cyllido. Felly, yn ystod cyfnod pan oedden ni'n teimlo ei bod yn fwy anodd codi arian, roedden ni'n ddiolchgar am natur hyblyg y grant."

> "Yn lleol, roedden ni wedi cynyddu capasiti yn y tîm cynghori yn unig ond mae gennyn ni gyfraddau rhagorol o ran cadw staff, diolch i'r grant. O edrych ar y sefydliad ar lefel genedlaethol/cyffredinol, rydyn ni wedi'i chael yn anodd recriwtio oherwydd natur tymor byr y contractau. Weithiau, pan fyddwn ni'n colli cynghorydd, efallai na fyddwn ni'n cael yr un lefel o arbenigedd yn ei le – efallai y byddwn ni'n gorfod recriwtio pobl ar y lefel hyfforddi a dysgu sgiliau iddyn nhw, ond dydy hynny ddim yn ateb tymor hir."

> "Mae'r grant a'r incwm o gymorth cyfreithiol wedi aros yn eu hunfan ers amser maith. Mae ein cyfradd cyflog ar gyfer cyfreithwyr yn dda iawn ond, wrth gwrs, does neb yn gallu tyfu o fewn y strwythur ar y gyfradd honno. Am ei bod yn anodd cael strwythur cyflogau cystadleuol, mae pobl yn troi oddi wrth waith cymorth cyfreithiol at agweddau eraill ar waith cyngor cyfreithiol… Gallaf weld tuedd yng ngogledd Lloegr yn enwedig lle mae nifer mawr o ymarferwyr cyfraith breifat wedi penderfynu rhoi'r gorau i gymryd gwaith cymorth cyfreithiol…"

Yn wyneb yr heriau hyn, roedd sefydliadau wedi dechrau meddwl yn greadigol hefyd ynghylch cynyddu capasiti drwy gydweithio. Roedd un derbynnydd grant wedi gweithio mewn partneriaeth â ffyrmiau cyfraith breifat yn ei ddinas i gynyddu nifer y staff sy'n darparu cyngor cyfreithiol i gleientiaid drwy'r e-bost. Roedd y ffyrmiau cyfreithwyr wedi cydweithio fel hyn yn rhad ac am ddim, gan ddod â budd i'r ddwy ochr, lle'r oedd cyfreithwyr dan hyfforddiant (yn ogystal â phartneriaid hŷn a oedd â diddordeb) yn llunio cyngor cyfreithiol i gleientiaid gan ddefnyddio'r llwyfan Trello. Wedyn byddai derbynwyr y grant yn anfon yr ymatebion hyn at gleientiaid drwy e-bost y sefydliad.

Roedd derbynnydd grant arall wedi rhoi gwybod iddo gydweithio ag ymgynghorydd datblygu i ailstrwythuro’r sefydliad. Roedd hyn wedi galluogi’r sefydliad i feddwl yn fwy strategol a chamu’n ôl o’r gweithrediadau. Gan fod y rhan fwyaf o gyflogeion y sefydliad yn gweithio’n rhan-amser, roedd yr ailstrwythuro’n caniatáu i’r sefydliad ganolbwyntio ar recriwtio pobl a gweithio i ddatblygu capasiti, yn ogystal â sicrhau bod cyfran fwy o’r bobl yn y sefydliad yn dod o gefndir ffoaduriaid.

# 5. Canlyniad 2: Cynyddu mynediad at gyfiawnder drwy arloesi strategol

Ail ganlyniad yr SSG oedd cynyddu mynediad at gyfiawnder drwy arloesi strategol. Roedd hyn yn golygu gwneud grantiau i sefydliadau a oedd wedi cynnig syniadau neu a oedd eisoes yn rhedeg prosiectau gyda'r bwriad o gynyddu mynediad at gyfiawnder yn sylweddol, yn cynnwys drwy ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd digidol. I'r perwyl hwnnw, mae'r adran hon yn darparu mewnwelediad i'r dulliau darparu a ddefnyddiwyd gan dderbynwyr grant yn ystod y cyfnod cyllido, yn cynnwys ymweliadau â gwefannau a gwariant ar dechnoleg.

## 5.1 Dulliau darparu

### Y Prif Bwyntiau

- Roedd bron pob un o'r sefydliadau wedi ailddechrau darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb.
- Roedd derbynwyr y grant wedi defnyddio dulliau cymysg i ddarparu eu gwasanaethau cynghori yn ystod y cyfnod adrodd, gan eu darparu ar-lein a wyneb yn wyneb bron cymaint â thros y ffôn. Ar sail y defnydd cyson o wasanaethau cynghori wyneb yn wyneb drwy gydol y cyfnod adrodd ynghyd â data anecdotaidd gan dderbynwyr y grant, rhagwelir y bydd dulliau cymysg o ddarparu cyngor yn parhau yn y sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw.

Gofynnwyd i dderbynwyr y grant sut roeddent wedi darparu cyngor i gleientiaid rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022. Roeddent wedi ateb drwy amcangyfrif cyfrannau o'r rhestr ganlynol o ddulliau darparu gwasanaeth fel bod y cyfanswm yn dod i 100%:

1. Darparu ar-lein drwy ffurflen gwefan (fel ffurflen tudalen 'Cysylltwch â ni'), e-bost, cyfleuster sgwrsio ar-lein neu gynadledda fideo ar-lein (fel Skype, Zoom, FaceTime, neu fath arall o dechnoleg cynadledda fideo)
2. Dros y ffôn
3. Wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd drwy ymweliadau gan gleientiaid neu ymweliadau â sefydliadau eraill (fel sefydliadau eraill yn y trydydd sector yn cynnwys ceginau cawl, llochesi, ac yn y blaen)
4. Unrhyw ddulliau darparu eraill

Mae'n bwysig nodi bod yr holl ddata am ddulliau darparu yn 'gyfrannau amcangyfrifedig' ac nad ydynt wedi'u seilio ar nifer gwirioneddol yr achosion. Yn ogystal â hyn, gan fod y cylch adrodd wedi'i bennu yn ôl terfynau amser mewnol yn yr MoJ, mae'r data wedi'u seilio ar amcangyfrifon dros gyfnod penodol. Felly, dylid arfer rhywfaint o ofal wrth ddehongli unrhyw dueddiadau.

Mae Tabl 3 yn dangos nifer y dulliau darparu a ddefnyddiwyd gan dderbynwyr y grant yn y cyfnod adrodd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

**Tabl 3: Nifer y dulliau darparu a ddefnyddiwyd gan dderbynwyr y grant**

| Nifer y dulliau darparu (Dros y ffôn, Ar-lein, Wyneb yn wyneb, Arall) | Nifer y sefydliadau | Canran y sefydliadau |
|---|---:|---:|
| 1 dull | 0 | 0% |
| 2 ddull | 2 | 3% |
| 3 dull | 45 | 68% |
| 4 dull | 19 | 29% |

Ar ddechrau'r pandemig COVID-19, roedd sefydliadau wedi newid o ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn bennaf i'w darparu o bell. Fel y mae Tabl 3 yn dangos, roedd 45 sefydliad (68%) wedi defnyddio tri dull darparu, a hynny'n dangos bod dulliau cymysg o ddarparu gwasanaethau yn gyffredin yn y cyfnod adrodd. Roedd 19 sefydliad (29%) wedi defnyddio pedwar dull darparu, a dim ond 2 sefydliad (3%) a oedd wedi defnyddio dau ddull yn unig.

Roedd tystiolaeth debyg dros gyfnod y grant CSASS yn dangos cynnydd yn y defnydd o ddulliau darparu cymysg o 29% o sefydliadau yn Ebrill 2020 i 42% ym mis Mawrth 2021. Ar sail cyfweliadau â derbynwyr y grant CSASS, rhagwelwyd y byddai dulliau cymysg o ddarparu gwasanaethau yn parhau yn ôl anghenion y cleientiaid ac roedd data am yr SSG yn cadarnhau eu bod wedi parhau.[13]

[13] Cyfeiriwyd at ddata am grant y CSASS er mwyn rhoi canfyddiadau ar sail data presennol yr SSG yn eu cyd-destun. Fodd bynnag, nid yw'r ddwy set data (CSASS ac SSG) yn gyfnewidiadwy nac yn rhai y gellir eu cymharu'n uniongyrchol gan eu bod yn cynnwys sefydliadau gwahanol fel derbynwyr grant, ar wahân i 29 sefydliad a oedd wedi'u hariannu ar ddau gam y CJF. Cynhelir dadansoddiad pellach o'r is-sampl o sefydliadau a ariannwyd ar y ddau gam ar ddiwedd cyfnod cyllido'r SSG er mwyn deall y naratif sy'n sail i'r tueddiadau a drafodwyd.

Mae mewnwelediadau pellach i'r mathau o ddulliau darparu a ddefnyddiwyd gan dderbynwyr y grant yn ystod y cyfnod adrodd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 wedi'u dangos yn y ffigur isod.

**Ffigur 6:Nifer derbynwyr y grant a ddefnyddiodd y gwahanol ddulliau darparu**

| | |
|---|---|
| Number of organisations | Nifer y sefydliadau |
| Telephone | Dros y ffôn |
| Online | Ar-lein |
| Face-to-face | Wyneb yn wyneb |
| Other | Arall |
| Unknown | Anhysbys |
| Delivery method | Dull darparu |

Roedd pob un o'r 66 o dderbynwyr grant yn ddiwahân yn darparu gwasanaethau dros y ffôn. Roedd mewnwelediadau o gyfweliadau yn ystod cyfnod grant y CSASS yn dangos bod darparu dros y ffôn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan y ffaith bod dyfeisiau ffôn yn fwy hygyrch na mathau eraill o dechnoleg fel gliniaduron, a bod hyn yn rhatach na defnyddio offer ar-lein fel y rhyngrwyd ar fand eang. Y gwahaniaeth amlwg rhwng y defnydd o ddulliau darparu yn ystod y cyfnod hwn o gymharu â chyfnod adrodd y CSASS

yw bod dulliau darparu ar-lein a wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu defnyddio gan bron pob un o'r sefydliadau.[14]

Yn ystod cyfnod adrodd yr SSG, roedd holl dderbynwyr y grant heblaw un wedi darparu cymorth wyneb yn wyneb i gleientiaid, tra oedd y nifer hwn wedi amrywio yn ystod cyfnod y CSASS o ganlyniad i gyfnodau clo cenedlaethol. Yn ystod cyfnod y CSASS, gwelwyd bod y defnydd o gymorth wyneb yn wyneb wedi lleihau ar y dechrau gyda'r cyfnod clo cyntaf, ei fod wedi cynyddu wrth ddileu'r cyfyngiadau, ac wedi lleihau eto gyda'r ail gyfnod clo. Yn ogystal â hyn, yn ystod cyfnod adrodd yr SSG, nododd 58 o sefydliadau (88%) eu bod wedi defnyddio eu safle i gynnig cymorth wyneb yn wyneb i gleientiaid, tra oedd hyn wedi amrywio rhwng 31 a 49 (43%-68%) yn ystod cyfnod adrodd y CSASS. Mae'r data cymharol hyn yn dangos bod sefydliadau'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yn eu swyddfeydd wrth barhau hefyd i ddefnyddio dulliau darparu ar-lein, dros y ffôn, a dulliau eraill. Tua diwedd cyfnod adrodd yr SSG, roedd 38 sefydliad (58%) hefyd yn gweld cleientiaid wyneb yn wyneb mewn adeiladau eraill (cartrefi cleientiaid, safleoedd wedi'u rhentu ac yn y blaen).

Roedd rhai sefydliadau wedi egluro'r rhesymau dros ailddechrau darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb ar ôl Mehefin 2021 mewn blychau sylwadau testun agored, gan gyfeirio'n bennaf at anghenion cleientiaid, nodweddion a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed, a delio ag achosion brys. Ar adeg casglu'r data yn Hydref 2021, roedd sefydliadau'n pwysleisio eu bod wedi cymryd mesurau, wrth ailddechrau darparu cymorth wyneb yn wyneb, i sicrhau bod eu safleoedd yn parhau'n lleoedd diogel ar gyfer ymweliadau gan gleientiaid:

> "Mae gwahanol feysydd pwnc a phrosiectau'n addas yn eu ffyrdd gwahanol ar gyfer darparu cyngor o bell.Ond mae nifer o'n cleientiaid yn ochelgar ac yn agored iawn i niwed, ac mae arnyn nhw angen cael o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb i helpu i greu cysylltiadau da ar gyfer cydweithio. Ar hyn o bryd, mae tua 70% ohonyn nhw'n cael o leiaf un sesiwn wyneb yn wyneb. Ond ar ôl hynny, bydd cymaint â phosibl yn cael ei wneud dros y ffôn a thrwy lythyru er mwyn lleddfu'r straen ar bobl yn yr adeilad a lleihau cyswllt diangen etc."

[14] Gweler Ffigur 9, t. 28 yn adroddiad diwedd grant CSSAS i gael rhagor o fanylion. Mae ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1039750/csass-grant-report.pdf.

Rhesymau eraill a roddwyd dros ailddechrau darparu cyngor wyneb yn wyneb oedd y ffaith bod cyfyngiadau cymdeithasol wedi'u dileu a bod rhwystrau cyfathrebu yn bodoli:

> "Gan nad yw'r rhan fwyaf o'n cleientiaid yn siarad dim neu nemor ddim Saesneg, ac nad ydyn nhw'n gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiaduron neu TG, rydyn ni'n gorfod eu gweld wyneb yn wyneb i'w helpu i ddelio â'u materion. Yn ystod y cyfnodau clo, roedd ein staff yn darparu cymorth drwy ddefnyddio WhatsApp a'r ffôn, ond gan fod y cyfyngiadau wedi'u dileu bellach, rydyn ni wedi gwneud ein swyddfeydd yn ddiogel i weld cleientiaid wyneb yn wyneb ac mae hyn yn eu helpu."

Roedd dulliau darparu ar-lein, yn cynnwys cyfleusterau sgwrsio a chynadledda fideo, hefyd wedi'u defnyddio'n gyson dros y cyfnod adrodd gan 65 o sefydliadau (98%). O blith y gwahanol ddulliau ar-lein o ddarparu gwasanaethau, roedd 59 sefydliad (89%) yn defnyddio'r e-bost gan amlaf.Defnyddiwyd cynadledda fideo ar-lein (fel Skype, Zoom a FaceTime) gan 51 sefydliad (77%), canran fwy nag yng nghyfnod adrodd y CSASS pan gafodd ei ddefnyddio gan oddeutu 50% o sefydliadau rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2020 ac ym mis Mawrth 2021 pan oedd y cyfyngiadau'n fwyaf caeth. Defnyddiwyd ffurflenni gwefan gan 26 sefydliad (39%).

Roedd 19 sefydliad (29%) wedi nodi iddynt ddefnyddio dulliau darparu 'eraill' a oedd yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, llythyru, a gwasanaethau negeseuon symudol fel WhatsApp. Nododd un sefydliad ei fod yn defnyddio faniau a bysiau i gyrraedd cleientiaid mewn mannau anghysbell, tra oedd dau arall wedi sefydlu 'pwyntiau mynediad cymunedol' neu 'ganolfannau technoleg'. Mae'r mentrau hyn hefyd yn cydweddu ag amcanion y grant ar gyfer sicrhau mynediad eang at gyfiawnder, yn cynnwys mynediad at gyngor i bobl na allent gael ato fel arall:

> "Mae cynadledda fideo yn profi'n ddefnyddiol iawn ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain – defnyddwyr ein gwasanaeth cynghori i bobl fyddar. Rydyn ni wedi cychwyn prosiect treialu i gleientiaid sydd heb y sgiliau neu'r cyfarpar sydd eu hangen i gael mynediad at gyngor: sefydlwyd Pwyntiau Mynediad Cymunedol mewn pedwar lleoliad lle mae cleientiaid yn gallu dod heibio, pwyso'r sgrin a siarad â chynghorydd dros y ffôn, ond yn gallu troi i fideo os bydd angen. Mae camera sy'n tynnu llun eglur iawn yn rhan o'r sgrin lle bydd cleientiaid yn gallu gosod unrhyw lythyrau i'w sganio a'u hanfon at y cynghorydd."

O gymharu â'r data am y CSASS, lle'r oedd cyfweliadau â derbynwyr grant yn dangos bod dulliau darparu o bell yn cael eu defnyddio'n llai aml o lawer neu bron byth cyn y

pandemig COVID-19, mae'r data am yr SSG yn dangos bod dulliau darparu o bell wedi'u defnyddio ar y cyd â darparu wyneb yn wyneb i wasanaethu cleientiaid yn y ffordd orau:

> "Byddwn ni'n cynnal cyfarfodydd gwaith achos manwl drwy Zoom neu wyneb yn wyneb. Byddwn ni'n aml yn delio ag ymholiadau byr gan gleientiaid presennol neu'n eu diweddaru drwy'r e-bost. Rydyn ni'n darparu rhai mathau o gyngor drwy lythyr – a'i gopïo'n aml drwy'r e-bost. Byddwn ni'n delio ag ymholiadau untro drwy'r e-bost gan amlaf, ond weithiau dros y ffôn."

I grynhoi, roedd y data am ddulliau darparu a ddefnyddiwyd gan sefydliadau yn y cyfnod adrodd yn dangos tueddiadau diddorol a bod y cynnydd yn y defnydd o ddulliau wyneb yn wyneb a dulliau darparu o bell wedi parhau tra oedd effaith y pandemig COVID-19 yn parhau. Roedd hyn yn cadarnhau mai dulliau hybrid neu gymysg o ddarparu yw'r ffordd ymlaen i'r sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw ar sail yr hyn sy'n gweithio orau i gleientiaid, adnoddau'r sefydliad, capasiti a thechnoleg:

> "Does dim angen cadw'r dulliau cynghori ar wahân i'w gilydd… Dulliau hybrid yw'r ffordd ymlaen gan y bydden ni'n aml yn mynd i'r carchar ac yn methu â helpu. Bydd gweithdai yn gwasanaethu nifer o bobl ar y tro fel arfer. Mae Phoneline neu Adviceline yn dda ar gyfer ymholiadau cyflym. Felly mae'r gwahanol ddulliau yn ategu ei gilydd."

## 5.2 Ymweliadau â Gwefannau

**Y Prif Bwyntiau**

- Gwelwyd cynnydd cyson yn y defnydd o wefannau yn ystod y cyfnod adrodd, a chofnodwyd y nifer mwyaf o ymweliadau ym mis Medi 2021.
- Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau gan eu bod yn ymwneud ag is-sampl o 31 o dderbynwyr grant yn unig (47%).

Lle'r oedd yn bosibl, gofynnwyd i dderbynwyr y grant ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â'r defnydd o wefannau gan ei bod yn debygol y byddai hyn yn dangos y pryderon a oedd gan bobl a oedd wedi arwain at yr ymddygiad ceisio cyngor.

**I ddibenion yr ymchwil hon, y disgrifiad o ymweliad â gwefan yw un ymwelydd sy'n cyrraedd y wefan ac yn pori ynddi wedyn.**

Mae Ffigur 6 yn dangos data misol am y defnydd o wefannau rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 a ddarparwyd gan dderbynwyr y grant.

**Sylwer: gan nad oedd pob un o'r sefydliadau'n gallu darparu data am y defnydd o wefannau, mae'r ffigur wedi'i seilio ar y data a gafwyd gan is-set o 31 sefydliad a oedd wedi darparu'r data hyn drwy gydol y cyfnod adrodd.**

**Ffigur 7: Dosbarthiad misol yr ymweliadau â gwefannau rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022(31 o dderbynwyr grant)**

| Number of website visits | Nifer yr ymweliadau â gwefannau |
|---|---|
| Apr | Ebr |
| May | Mai |
| Jun | Meh |
| July | Gor |
| Aug | Awst |
| Sep | Medi |
| Oct | Hyd |
| Nov | Tach |
| Dec | Rhag |
| Jan | Ion |
| Feb | Chw |
| Mar | Maw |
| Month, year | Mis, blwyddyn |

Mae'r ffigur yn dangos bod nifer yr ymweliadau â gwefannau wedi codi'n gyson rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021, bod tuedd at i lawr wedyn tan fis Rhagfyr 2021 a bod nifer yr ymweliadau â gwefannau wedi aros ar lefelau tebyg erbyn Mawrth 2022. Gwelwyd y nifer mwyaf o ymweliadau â gwefannau, sef 205,169, ym mis Medi 2021, tra mai nifer cyfartalog yr ymweliadau dros y cyfnod adrodd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 oedd 184,010. **Er hynny, mae ystyriaethau'n codi o ran ansawdd y data gan fod amrywiadau amlwg yn y data**

**a gyflwynwyd gan wahanol sefydliadau.** Yn benodol, ceir dau sefydliad sy'n gweithredu drwy ddulliau digidol yn bennaf ac sydd felly â lefelau uwch o ymweliadau â gwefannau na gweddill derbynwyr y grant. Gan fod y data am wefannau yn seiliedig ar sampl lai o dderbynwyr y grant, roedd newidiadau mawr mewn dau sefydliad wedi cael effaith anghymesur ar y tueddiadau cyffredinol.

Fel y gwelwyd yn achos y CSASS, mae'n bosibl y byddai effaith dymhorol ar y defnydd misol o wefannau o ganlyniad i gyfnod y gwyliau ar adeg y Nadolig pan oedd nifer yr ymweliadau wedi gostwng i 162,594 yn Rhagfyr 2021 (gostyngiad o 21% oddi ar fis Medi 2021).

## 5.3 Technoleg

Er mai hyrwyddo cyfiawnder drwy ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau digidol ar raddfa fawr oedd un o'r tri chanlyniad ar gyfer yr SSG, nodwyd bod derbynwyr y grant wedi gwario swm cymharol fach o gyfanswm gwariant y grant (£84,238 neu 4%) ar brynu neu uwchraddio cyfarpar TG a chyfathrebu. Trafodwyd ymhellach y rhesymau dros lefel isel y gwariant ar TG wrth gyf-weld derbynwyr y grant. Yn bennaf, roedd sefydliadau wedi nodi eu bod wedi dewis rhoi blaenoriaeth wrth ddefnyddio'r cyllid hwn i gostau staff a gwariant allweddol arall gan y sefydliad, oherwydd natur hyblyg yr SSG, a'u bod wedi defnyddio grantiau eraill lle'r oedd amodau mwy manwl ar wario ar TG ar gyfer gwariant ar dechnoleg. Nododd nifer bach o sefydliadau eu bod wedi rhoi blaenoriaeth i wariant ar TG o'r blaen ar ddechrau'r pandemig COVID-19 wrth droi at ddarparu gwasanaethau o bell, ac felly fod ganddynt y seilwaith sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau digidol. I'r un graddau, roedd derbynwyr grant wedi nodi'r heriau mewn perthynas ag allgáu digidol:

> "Yr her sy'n codi o ran dulliau technoleg yw dod o hyd i ddull sydd hefyd yn gweithio i bob un o'n defnyddwyr. Roedden ni wedi defnyddio cyllid arall a oedd yn ymwneud yn fwy â thechnoleg i brynu meddalwedd i'w gwneud yn haws cynnal cyfarfodydd hybrid ac wedi codi arian drwy ymgyrch cyllido torfol i ddarparu dyfeisiau i gleientiaid, ond mae allgáu digidol yn her anferth yn ein maes gwaith ni…"

> "Roedden ni hefyd yn gorfod meddwl am allu cleientiaid i gael gafael ar dechnoleg, costau lawrlwytho, ffonau clyfar, a sut bydden ni'n gallu sicrhau sgwrsio am ddim drwy fideo i gleientiaid – dydy cleientiaid ddim wedi derbyn hyn ar raddfa fawr…"

Roedd un derbynnydd grant a wariodd ran o'r cyllid grant ar dechnoleg wedi nodi mai'r nod wrth wneud hynny oedd creu gwell diwylliant ac amgylchedd gwaith yn y sefydliad:

> "Roedden ni wedi gwario rhywfaint ar TG, yn bennaf i gael cronfa ddata newydd o'r enw 'Lamplight'[15] ar gyfer rheoli achosion i'n helpu i weithio'n well o bell. Mae'n cydgysylltu dyddiaduron poblac ati. Cawson ni ffonau symudol i gydweithwyr am eu bod nhw'n gweithio'n galed iawn ac yn aml y tu allan i oriau arferol – does dim angen iddyn nhw weithio ar eu ffonau personol. Mae iechyd meddwl cydweithwyr yn bwysig."

15 https://www.lamplightdb.co.uk/

# 6. Canlyniad 3: Sicrhau mynediad eang at gyfiawnder drwy ddyfarnu grantiau i wella mynediad at gyngor i'r rheini na allent gael ato fel arall

Gan gydnabod bod rhai ardaloedd a chymunedau yn y DU yn cael mynediad gwaeth na'i gilydd at gyngor cyfreithiol arbenigol, trydydd nod y grant oedd gwella mynediad at gyngor ar gyfer pobl na allent gael ato fel arall. Felly roedd tîm y gwerthusiad wedi ceisio cael data ansoddol drwy gyfweliadau er mwyn deall profiadau derbynwyr y grant o ddemograffeg a nodweddion eu cleientiaid, yn enwedig os oedd categorïau mwy diweddar o gleientiaid yn gofyn am gyngor dros y cyfnod adrodd. **Dylid nodi felly fod y data hyn yn anecdotaidd ac y dylid bod yn ofalus wrth eu dehongli am nad oes modd cyffredinoli ar eu sail y tu allan i'r set data.**

**Y Prif Ganfyddiadau**

- Roedd derbynwyr y grant wedi nodi bod cynnydd yn nifer yr achosion lle'r oedd anghenion cymhleth a chynyddol gan gleientiaid, a bod hyn wedi peri iddynt newid ffocws eu gwasanaethau o ddarparu cyngor yn fuan i leddfu argyfyngau cleientiaid.
- Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos derbynwyr grant a oedd yn canolbwyntio ar faes cyfraith Lloches a Mewnfudo. Roeddent wedi nodi categorïau eraill a mwy diweddar o gleientiaid, yn cynnwys ceiswyr lloches o Affganistan, plant dan oed ar eu pen eu hunain (y glasoed yn bennaf) yn ceisio lloches, a gwladolion Wcráin a gwledydd yn yr UE yn holi am statws/cynlluniau mewnfudo.
- Roedd rhai derbynwyr grant hefyd wedi nodi bod mwy o bobl yn y grŵp oedran 20 i 40mlwydd oed, yn enwedig menywod, yn ceisio cyngor ar faterion dyled a chyflogaeth.

## 6.1 Demograffeg a nodweddion cleientiaid

Yn gyffredinol, roedd derbynwyr y grant wedi nodi bod demograffeg eu cleientiaid wedi aros yr un fath gan mwyaf ers y pandemig COVID-19 ond, er hynny, eu bod yn gweld mwy o gleientiaid na'i gilydd mewn rhai meysydd cyfraith – yn enwedig Budd-daliadau, Lloches a Mewnfudo, a Dyled. Roedd derbynwyr y grant hefyd wedi nodi bod cynnydd yn nifer y

cleientiaid a oedd â nodweddion mwy diweddar neu mwy penodol sy'n eu gwneud yn agored i niwed yn y flwyddyn flaenorol.

**Lloches a Mewnfudo**

Ym maes Lloches a Mewnfudo, roedd derbynwyr y grant wedi sylwi ar gynnydd yn nifer yr achosion lle mae anghenion cymhleth a chynyddol ac wedi nodi bod y grant wedi caniatáu iddynt ddefnyddio capasiti i ddiwallu'r anghenion cynyddol hynny:

> "Cyn y pandemig COVID, roedd gennyn ni 300 o welyau i geiswyr lloches, a'r nifer hwnnw wedi treblu i 1000 o welyau yn haf 2020. Yn y gorffennol, roedd pobl yn cael eu gwasgaru ac roedden nhw'n fwy sefydlog erbyn iddyn nhw ddod i Fryste (roedd ganddyn nhw ddillad etc). Fodd bynnag, mae pobl yn dod aton ni bellach heb ddim byd – dim arian, dim dillad etc – ac felly mae ganddyn nhw lefel uwch o angen sylfaenol ac angen am gefnogaeth gyfreithiol. Un peth sydd wedi para hefyd ers y pandemig yw nifer y bobl sy'n dod aton ni sydd eisoes mewn argyfwng. Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr anghenion a hefyd yn nifer y bobl eu hunain. Felly yn hytrach na rhoi cyngor yn fuan, rydyn ni'n ceisio lleddfu argyfyngau – sut y gallwn ni ddod â nhw oddi ar y strydoedd, sicrhau bod meddyg teulu ar eu cyfer nhw etc…"

Nododd un derbynnydd grant fod nifer yr achosion ynghylch mewnfudo lle'r oeddent wedi rhoi cymorth cyn y pandemig COVID-19 yn rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rheini a oedd wedi cael statws mewnfudo a'r rheini a oedd heb ei gael. Ar ôl y pandemig COVID-19, roeddent wedi cofnodi bod 80% o'u cleientiaid ym maes mewnfudo heb gael statws mewnfudo ffurfiol yn y DU. Roedd un derbynnydd grant wedi nodi bod cynnydd yn nifer y plant dan oed a oedd ar eu pen eu hunain neu wedi'u gwahanu (yn enwedig rhai yn eu glasoed sydd tua 16-18 mlwydd oed) a oedd yn ceisio lloches.

Roedd derbynwyr grant sy'n gweithio ym maes Lloches a Mewnfudo hefyd wedi nodi cynnydd yn nifer yr achosion yn ymwneud â cheiswyr lloches Affganaidd: cymysgedd o'r rheini a oedd newydd gyrraedd a phobl a oedd eisoes yn y wlad oherwydd y dirywiad yn y sefyllfa yn Affganistan. Yn yr un modd, roedd un derbynnydd grant wedi sylwi ar gynnydd yn nifer y bobl sy'n galw eu llinell gymorth mewnfudo wythnosol ddi-dâl i holi am gynllun fisâu Wcráin. Fodd bynnag, roedd y derbynnydd grant hwn wedi nodi nad ffoaduriaid oedd y rheini a oedd yn galw, ond gwladolion Wcráin a oedd wedi cael fisa, a oedd yn holi ar ran eu teuluoedd/perthnasau yn Wcráin. Roedd derbynwyr grant wedi sylwi hefyd ar gynnydd yn nifer gwladolion yr UE a oedd yn ceisio cyngor ar eu statws mewnfudo:

> "O edrych ar y ffigurau am y cyfnod hwn ar ôl Mehefin 2021, mae cynnydd yn nifer gwladolion yr UE (sy'n ein galw) sy'n pryderu am statws preswylydd cyn-sefydlog a'u hawliau i gael absenoldeb mamolaeth, am gyflog, ac am ffi yswiriant y GIG. Mae nifer am ddychwelyd i'w gwlad enedigol ac yn pryderu am yr effaith ar dâl mamolaeth etc. Mae ymdeimlad mwy o lawer o ansicrwydd yn y grŵp hwn…"

**Dyled**

Er bod dyled wedi'i nodi'n un o'r pedwar maes cyfraith lle'r oedd derbynwyr grant wedi gweld y niferoedd mwyaf o gleientiaid/achosion (gweler adran 4.2), roedd nifer bach o dderbynwyr grant wedi nodi bod y rhan fwyaf o'r rheini a geisiodd gyngor ar ddyled yn y flwyddyn flaenorol yn rhai yn y grŵp oedran 20 i 40 mlwydd oed. Nododd un derbynnydd grant fod y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn rhai a oedd heb wynebu problemau dyled o'r blaen ac felly a oedd heb grebwyll ariannol. Yn y cyswllt hwn, roedd derbynwyr grant wedi sylwi bod canran fwy ohonynt yn fenywod, yn enwedig yn y grŵp oedran 18 i 25 mlwydd oed:

> "…Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod aton ni am eu bod yn teimlo cywilydd oherwydd dyled. Mae'r rhain yn gleientiaid sydd â dyled o £14,000 rhwng 35 o gredydwyr (mae cynnydd yn nifer y benthycwyr arian didrwydded hefyd). Yn un o'n rhanbarthau, rydyn ni wedi sylwi bod mwy o fenywod nag o ddynion yn dod at y gwasanaeth dyled…. Mae dyled yn fater ffeministaidd ac weithiau, wrth gwrs, mae'n gymysg â materion mewnfudo ac mae cam-drin domestig wedi creu mwy o risg o dlodi i'r menywod hyn…"

**Cyflogaeth / Gwahaniaethu seiliedig ar waith**

Roedd un derbynnydd grant sy'n gweithio ar hawliau menywod wedi sylwi ar gynnydd yn nifer yr achosion sy'n gysylltiedig â materion cyflogaeth a gwahaniaethu, yn enwedig yn ystod y pandemig COVID-19. Tynnodd sylw at astudiaeth achos a oedd yn adlewyrchu'r gwahanol fathau o faterion iechyd a diogelwch roedd cleientiaid yn gofyn am gyngor yn eu cylch:

### Astudiaeth Achos

Roedd Georgie [yr enw wedi'i newid i'w chadw yn anhysbys] yn gweithio fel gofalwr cymunedol yn ymweld â phobl oedrannus yn eu cartrefi, ac felly roedd yn amhosibl cadw pellter cymdeithasol. Darparwyd cyfarpar diogelu personol iddi ac roedd yr asesiad risg a gafodd yn dweud ei bod yn ddiogel iddi barhau i weithio.
Er hynny, roedd wedi bod yn feichiog ers 28 wythnos (credir bod menywod beichiog yn wynebu mwy o risg) ac roedd yn pryderu am lefel uchel yr achosion COVID yn ei hardal. Nid oedd unrhyw waith y gallai ei wneud gartref yn ei rôl, a gwrthodwyd caniatáu ataliad dros dro iddi ar sail mamolaeth. Roedd ei chyflogwr yn sefydliad mawr a oedd yn cyflawni contract awdurdod lleol i ddarparu gofal yn y cartref. Yr unig ddewisiadau a oedd ganddi oedd dechrau cymryd ei thâl mamolaeth bron tri mis cyn yr enedigaeth fel na fyddai ganddi ond chwe mis o absenoldeb â thâl ar ôl yr enedigaeth neu fynd heb dâl cyn yr enedigaeth er na allai fforddio hynny.

Roedd y derbynnydd grant wedi dangos drwy hyn fod categori o gleientiaid agored iawn i niwed wedi codi yn ystod y pandemig COVID-19, sef menywod beichiog ac ôl-enedigol, a hynny nid yn unig oherwydd eu hiechyd ond oherwydd natur benodol y problemau roeddent yn eu hwynebu yn y gweithle, yn amrywio o wahaniaethu i sicrhau absenoldeb mamolaeth. Felly roedd y derbynwyr grant wedi addasu eu cyngor i'w helpu i lunio llythyrau ac wedi awgrymu sgyrsiau y gallai'r cleientiaid hyn eu cael gyda'u cyflogwr er mwyn datrys problemau:

> "Yn benodol, mae menywod beichiog ac ôl-enedigol yn tueddu i deimlo eu bod wedi colli cysylltiad a'u bod wedi colli hyder yn y gweithle, felly roedd y cymorth hwnnw a'u cadw allan o dribiwnlysoedd cyflogaeth yn wasanaeth gwerthfawr. Doedden ni na nhw ddim am fynd drwy dribiwnlys cyflogaeth – cam mawr yn y canol yw mynd wyneb yn wyneb â'r cyflogwyr drwy siarad â nhw. Os bydd hynny'n gweithio, mae'n gallu arbed llawer o amser llys."

## 6.2 Arloesi i ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd anghysbell

Holwyd derbynwyr grant hefyd am unrhyw brofiadau a gawsant o fynd i weithio i ardaloedd anghysbell yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd dau dderbynnydd grant wedi sôn am ddefnyddio faniau a bysiau i gyrraedd ardaloedd anghysbell ac unigolion sy'n byw ynddynt. Nododd un derbynnydd grant:

> “Bysiau/faniau oedd y peth cyntaf i ni ei ddefnyddio i gyrraedd cleientiaid yn ystod y pandemig –mae ein partneriaid yn hoff o hynny hefyd – rydyn ni’n gosod ein logos magnetig dros dro ar y bysiau felly mae sefydliadau eraill yn gallu eu llogi a’u hailfrandio os bydd angen … erbyn hyn, mae’r bysiau’n cael eu defnyddio gan wasanaethau tân, elusennau lleol, grwpiau gweithredu dros ffoaduriaid, etc.”

> “Mae’r faniau hefyd yn dda i fynd i ardaloedd, ar gyfer y cleientiaid hynny nad ydyn nhw am gerdded i mewn i swyddfa ffurfiol fawr; mae’r bysiau/faniau yn creu naws groesawgar.”

Roedd sefydliadau hefyd wedi cynnal gweithdai cynghori galw heibio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill mewn gwahanol leoliadau yn fwy aml yn y flwyddyn flaenorol:

> “Rydyn ni’n cynnal gweithdai galw heibio mewn partneriaeth â lleoliadau fel neuaddau eglwys. Am ein bod ni’n gwneud hyn mewn partneriaeth, dydyn ni ddim yn talu rhent (ond yn ystod y cyfnod clo bydden ni weithiau’n talu swm bach o £15 yr awr am ddwy awr). Fel arfer mae’n weithdy galw heibio amlasiantaeth… rydyn ni’n cynnal un ar y cyd â sefydliad sy’n cartrefu ceiswyr lloches ac un arall ar y cyd â sefydliad LHDTQ (doedden ni ddim yn sylweddoli bod 43% o gleientiaid LHDT yn geiswyr lloches) – felly mae’r partneriaethau hyn yn ein helpu i weld y cysylltiadau rhwng materion hefyd.”

# 7. Adborth gan dderbynwyr y grant am brosesu a darparu'r grant

### Y Prif Ganfyddiadau

- Roedd derbynwyr y grant wedi gweld bod natur hyblyg y cyllid yn gymorth mawr gan fod hyn yn eu galluogi i flaenoriaethu gwariant lle'r oedd yr angen mwyaf amdano. Yn benodol, roedd y cyllid o gymorth i sicrhau bod gwasanaethau cynghori arbenigol ar gael o hyd i gleientiaid ac wedi helpu, mewn rhai achosion, i gynyddu'r capasiti i ddarparu cyngor neu i addasu gwasanaethau i ddelio ag achosion o natur fwy diweddar/arbenigol.
- Mae'r gwerthusiad o'r SSG a'r CSASS yn dangos bod grantiau hyblyg yn werthfawr i dderbynwyr grant am eu bod yn amlygu ymddiriedaeth ar ran y cyllidwyr ac yn caniatáu i dderbynwyr grant gwrdd ag anghenion cleientiaid yn y ffordd orau yn y gwahanol arbenigeddau a lleoliadau ac mewn sefydliadau o wahanol faint. Yn y rheng flaen, mae cyllid hyblyg wedi galluogi derbynwyr grant i gyflogi a chadw staff profiadol neu arbenigol er mwyn darparu gwasanaethau arbenigol yn ystod cyfnod ansefydlog. Roedd hyn yn ganlyniad allweddol i'r SSG o ystyried yr ôl-groniad o achosion cleientiaid a oedd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gan fod argaeledd cyngor arbenigol – yr help priodol ar yr adeg gynharaf posibl – yn helpu i ddatrys problemau cleientiaid a'u hatal rhag gwaethygu'n ddiangen.
- Rhai o'r gwersi allweddol a ddysgwyd ar gyfer prosesau monitro a chasglu data yn y dyfodol ar sail adborth gan dderbynwyr y grant yw bod angen caniatáu i dderbynwyr grant gadw atebion i arolygon, a chasglu astudiaethau achos a thystlythyrau gan gleientiaid er mwyn galluogi derbynwyr grant i ddangos eu heffaith mewn gwahanol ffyrdd, a chasglu data demograffig am gleientiaid. Roedd nifer o dderbynwyr grant, mewn arolygon a chyfweliadau, wedi mynegi'r angen am grantiau amlflwydd er mwyn datrys heriau mewn ffordd gynaliadwy. Nododd derbynwyr grant y byddai grantiau amlflwydd yn caniatáu iddynt ymgymryd â chynllunio strategol i gwrdd â'r galw cynyddol am gyngor mewn nifer o feysydd cyfraith, i gynyddu capasiti, ac i feithrin partneriaethau cyfiawnder lleol a rhanbarthol.

Tynnwyd sylw at natur “hanfodol” y cyllid, gan ei fod wedi caniatáu i sefydliadau aros yn weithredol, yn enwedig mewn cyfnod pan oedd y sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw yn derbyn llai o incwm, ac o ystyried effaith misoedd y gaeaf ar faterion fel tai:

> “Dydw i ond am ailddatgan pa mor hanfodol yw’r cyllid hwn i ni. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwy na chwarter ein cyllid wedi dod o gymorth cyfreithiol tai ac mae’n anodd iawn cael gafael arno ar hyn o bryd am fod nifer yr achosion cymwys sy’n dod i’r llys yn parhau’n eithaf bach. Fodd bynnag, cefais i gyfarfod heddiw â Grŵp Strategol Digartrefedd y cyngor lleol a’r DWP, ac mae cymdeithasau tai a’r awdurdod lleol i gyd yn disgwyl y bydd problemau â budd-daliadau, dyled a thai yn dod yn fwy amlwg yn ystod misoedd y gaeaf. Heb y cyllid hwn, mae’n anodd gweld sut byddem wedi dal ati a gallu cynnig gwasanaeth, yn barod i ymateb, fel rydyn ni heddiw.”

Er mwyn ailbwysleisio effaith y cyllid hwn, roedd un derbynnydd grant wedi rhannu’r astudiaeth achos ganlynol â ni:

### Astudiaeth Achos

Mae’r derbynnydd grant hwn wedi bod yn helpu gwladolion tramor yn y carchar. Mae’r cyllid grant wedi helpu’r sefydliad hwn i gynorthwyo cleient ar adeg dyngedfennol pan oedd ei hawliad am Ddiogelwch Dyngarol/Lloches a Hawliau Dynol wedi cael ei wrthod.

Mae Mr X yn gleient tymor hir i’n sefydliad. Gwrthodwyd ei hawliad am loches yn 2005 ac roedd wedi byw yn y DU am lawer o flynyddoedd heb bapurau. Roedd wedi dioddef yn enbyd yn sgil treulio cyfnod hir mewn uned troseddwyr ifanc a chanolfan gadw mewnfudo ac roedd hyn wedi effeithio ar ei iechyd corfforol a meddyliol. Priododd yn 2012 ond chwalodd y briodas o ganlyniad i bwysau ariannol gan nad oedd yn cael gweithio na hawlio budd-daliadau. Hefyd nid oedd ei wraig yn gallu ymdopi â’i broblemau iechyd meddwl. Bu’n ddigartref am gyfnod hir ond yn y diwedd cafodd le mewn llety Adran 4 i geiswyr lloches a gafodd eu gwrthod. Roedd hyn wedi adfer ei berthynas â’i wraig ac roeddent wedi dod yn ffrindiau da wrth fyw ar wahân. Roedd yn gallu cael cyswllt â’i lys-blant ac wyrion a pharhau â bywyd teuluol.

Yn 2021 gwrthodwyd ei hawliad newydd, a chafodd orchymyn allgludo; roedd hyn wedi sbarduno dirywiad pellach yn ei iechyd meddwl a meddyliau ynghylch hunanladdiad. Nid oedd y Swyddfa Gartref wedi gallu ei allgludo er 2005 gan nad oeddent yn gallu cael dogfen deithio. Roedd hyn ynghyd â'i broblemau iechyd meddwl a'i fywyd teuluol wedi rhoi sail iddo dros apelio ond nid oedd ganddo gynrychiolaeth.

Cysylltodd â ni mewn cynnwrf meddwl gan ei fod yn wynebu cyfarfod rheoli achos yn fuan yn y Tribiwnlys heb gefnogaeth gyfreithiol. Roedd ein cynghorydd mewnfudo wedi'i gynorthwyo drwy'r gwasanaeth cynghori dros y ffôn. Wedyn roedd yn gallu gofyn yn hyderus am ohirio'r gwrandawiad llawn. Roedd hyn yn caniatáu i ni ei helpu i wneud cais llwyddiannus am gyllid Achos Eithriadol. Roedd wedyn yn gallu cael cynrychiolydd cyfreithiol.Roeddem hefyd yn gallu talu costau teithio i'r llys ar gyfer nifer o'i ffrindiau a oedd yn ffoaduriaid o'i wlad ac yn dystion allweddol i'w genedligrwydd. Roedd hyn yn fodd i herio haeriad ei fod yn dweud celwydd wrth y Swyddfa Gartref er mwyn peidio â chael ei allfudo. Yn ddiweddar, bu'n bresennol yn y gwrandawiad llawn gyda chynrychiolaeth gyfreithiol ac ym mhresenoldeb ei deulu a'i ffrindiau.
Roedd y cyngor arbenigol a roddwyd gennym wedi rhoi gobaith iddo a sefydlogi ei iechyd meddwl mewn cyfnod o argyfwng. Y ffactor allweddol oedd nad oedd bellach yn wynebu achos cyfreithiol cymhleth a fyddai'n penderfynu ei ddyfodol heb help proffesiynol.

Roedd un sefydliad wedi nodi bod y cyllid wedi eu helpu i gynllunio i ddychwelyd yn ddiogel i'w swyddfeydd ar ôl Mehefin 2021 tra oedd ei natur hyblyg yn caniatáu iddynt gwrdd ag anghenion y sefydliad yn y ffordd orau:

> "Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i ni. Rydyn ni'n wynebu heriau mawr, nid yn unig y cynnydd yn nifer y cleientiaid, ond hefyd paratoi ar gyfer penderfyniadau pwysig gan gyllidwyr ar ailgomisiynu gwasanaethau ar gyfer 2022/23 a chynllunio i ddychwelyd yn ddiogel i'n swyddfeydd newydd. Mae'n ein galluogi i barhau i ddarparu ein holl wasanaethau ac i wario'r arian lle'r ydyn ni wedi gweld yr angen mwyaf amdano."

Mae sefydliadau eraill wedi tynnu sylw at y rhan y mae'r SSG wedi'i chwarae wrth eu galluogi i wasanaethu cleientiaid sydd fwyaf agored i niwed a chynyddu capasiti neu chwilio am gynghorwyr arbenigol lle'r oedd angen:

> "Mae'r cyllid a gafwyd wedi chwarae rhan bwysig o ran helpu'r rheini sy'n ceisio mynd i'r afael â rhwystrau iaith, diffyg gwybodaeth am TG a hefyd â'r system. Rydyn ni wedi gweld nifer mawr o bobl yn dioddef trawma, ynysigrwydd ac yn dal i fyw heb wybod am y cymorth lleol sydd ar gael. Bydd y cyllid a gafwyd ar gyfer prosiect rhagorol o'r fath yn ein galluogi i gynorthwyo pawb, beth bynnag fo'i hil, crefydd neu genedligrwydd."

Yn gyffredinol, heblaw natur hyblyg y cyllid, roedd derbynwyr y grant yn gwerthfawrogi bod y cyllid wedi'u galluogi i ganolbwyntio ar wasanaethau a chyngor arbenigol, a syniadau strategol/blaenoriaethau sefydliadol: roedd hyn, fel y nododd un derbynnydd grant, "yn beth cadarnhaol ac yn cynyddu'r effaith ar ganlyniadau". Ym marn nifer o dderbynwyr y grant, roedd y cyllid yn cynnig ymdeimlad o ryddhad rhag cyfnod o argyfwng parhaus ers dechrau'r pandemig COVID-19:

> "…I mi fel Prif Weithredwr, y peth anoddaf oedd rheoli'r sefydliad yn ystod y pandemig a symud swyddfeydd yn ystod y cyfnod clo – yn fwy anodd na magu fy merch. Pan gefais i'r grant hwn, roeddwn i'n teimlo y gallwn i gael fy ngwynt ataf am eiliad a pheidio â gorfod delio â phroblemau drwy'r amser. Roedd yn rhoi cyfle i mi gamu'n ôl a chynllunio'n well… roedd yn beth aruthrol ar adeg pan oedd pob dim yn fy llethu…"

**Gwersi allweddol ar gyfer monitro a chasglu data**

Roedd y rhan fwyaf o dderbynwyr y grant wedi cael bod y ffurflen gais am grant, a'r broses monitro a chasglu data, yn syml. Roedd derbynwyr y grant yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd gan y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn ystod gwerthusiad y grant. Rhai o'r sylwadau mewn adborth i'w hystyried ar gyfer gwerthusiadau grant yn y dyfodol yw:

- Y dylid caniatáu i dderbynwyr grant gadw eu hymatebion i arolygon.
- Y dylid casglu mwy o ddata ansoddol drwy astudiaethau achos a thystlythyrau sy'n galluogi derbynwyr grant i ddangos eu heffaith mewn gwahanol ffyrdd.
- Roedd nifer bach o dderbynwyr grant wedi nodi y gellid casglu data am nodweddion gwarchodedig cleientiaid er mwyn cael mwy o fewnwelediad i ddemograffeg cleientiaid a grwpiau agored i niwed, gan fod cyllidwyr eraill yn aml yn gofyn am yr ystadegau hyn.

Roedd derbynwyr y grant hefyd wedi mynegi'r angen am gyllid hyblyg amlflwydd a fyddai'n caniatáu iddynt ganolbwyntio ar gynllunio strategol er mwyn delio â'r cynnydd mewn gwaith achos yn y meysydd cyfraith, cynyddu capasiti, a datblygu partneriaethau lleol:

"…Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig bod yr MoJ yn ystyried y data sy'n codi o'r grantiau hyn ac yn deall nad oes y ffasiwn beth â chyfnod 'Ôl-COVID' a'i fod yn ystyried darparu cyllid amlflwydd. Mae angen meddwl hefyd am gydweithio a chyngor gan grwpiau fel y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a'r Sefydliad Addysg Gyfreithiol … Cofiwch fod rhai sefydliadau fel ni yn gweithio mewn ardaloedd anghysbell ac yn mynd yn angof … felly dydy'r dull 'yr un fath i bawb' ddim yn gweithio. Mae partneriaethau lleol yn gweithio'n dda iawn, yn hytrach na rhai rhanbarthol neu genedlaethol, ac maen nhw'n arwain at waith effeithiol ac ymatebol…"

# 8. Casgliad

Yn gyffredinol, mae'r data yn dangos bod cyllid yr SSG wedi helpu'r 66 o ddarparwyr cyngor nid-er-elw i aros yn weithredol a dygymod ag effaith hir y pandemig COVID-19. Mae hyn yn cyflawni prif nod y grant. Yn syml, mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae'r SSG wedi galluogi derbynwyr y grant i ddelio â chostau staff fel cyflogau, recriwtio, a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod cyngor cyfreithiol yn parhau i gael ei ddarparu mewn cyfnod pan yw'r sector cefnogaeth gyfreithiol nid-er-elw wedi'i wanhau drwy ostyngiad mewn incwm a chapasiti (Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, 2019), a hynny wedi'i waethygu ymhellach gan y pandemig COVID-19 (Heppell a Sharma, 2021).

Mae'r SSG wedi dod â nifer o fuddion allweddol i dderbynwyr y grant. Ar lefel weithredol, oherwydd natur hyblyg y grant mae derbynwyr wedi gallu darparu gwasanaethau mewn ffordd a oedd yn cwrdd ag anghenion cleientiaid yn y ffordd orau yn y gwahanol arbenigeddau a lleoliadau ac mewn sefydliadau o wahanol faint. Yn y rheng flaen, roedd y cyllid yn galluogi derbynwyr y grant i gyflogi a chadw staff profiadol neu arbenigol er mwyn darparu gwasanaethau arbenigol mewn cyfnod ansefydlog. Roedd hyn yn ganlyniad allweddol o ystyried yr ôl-groniad o achosion cleientiaid a oedd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gan fod argaeledd cyngor arbenigol – yr help priodol ar yr adeg gynharaf posibl – yn helpu i ddatrys problemau cleientiaid a'u hatal rhag gwaethygu'n ddiangen. Ar yr un pryd, roedd derbynwyr y grant wedi nodi bod y galw am eu gwasanaethau wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, a bod cleientiaid yn dod atynt â phroblemau cynyddol a mwy cymhleth. Roedd sefydliadau wedi cofnodi cynnydd yn y gweithgarwch ceisio cyngor o fis Rhagfyr 2021 ymlaen – tuedd y bydd yn werth edrych arni eto mewn ymchwil yn y dyfodol, yn enwedig yn sgil y sefyllfa costau byw sydd wedi cynyddu ymddygiad ceisio cyngor cyfreithiol ymysg pobl (Cyngor Ar Bopeth, 2022).

Hefyd gwelwyd categorïau mwy diweddar o gleientiaid a oedd yn fwy agored i niwed ar ôl dechrau'r pandemig COVID-19 yn cynnwys, ymysg eraill, ceiswyr lloches o Affganistan, ceiswyr lloches yn y glasoed ar eu pen eu hunain, a phobl yn y grŵp oedran 20 i 40 mlwydd oed yn ceisio cyngor ar ddyled/materion ariannol, yn enwedig menywod.

Wrth ddileu cyfyngiadau cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd ar ôl Mehefin 2021, roedd y cyllid hefyd yn galluogi sefydliadau i ailddechrau darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb gan gadw dulliau cynghori o bell hefyd. Fel y rhagwelwyd yn yr adroddiad ar y CSASS

(Heppell a Sharma, 2021, tt. 25-29), parhawyd i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau hybrid/cymysg a bydd hyn yn debygol o barhau. Barnwyd bod darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn arbennig o werthfawr i gleientiaid sydd â nodweddion sy’n eu gwneud yn agored i niwed ac er mwyn i sefydliadau ddelio’n fwy effeithiol ag achosion brys. Mae sefydliadau hefyd yn ystyried ffyrdd arloesol i ymestyn eu cyrhaeddiad daearyddol neu gyrraedd cleientiaid sydd wedi’u hallgáu mewn ffyrdd eraill, drwy ddefnyddio canolfannau cymunedol a faniau/bysiau, er enghraifft.

Roedd dyfyniadau o gyfweliadau â derbynwyr grant ac adborth testun agored mewn arolygon yn dangos bod yr SSG wedi cael effaith werthfawr ar dderbynwyr grant a’u cleientiaid, mewn cyfnod pan deimlir effaith hir y pandemig COVID-19 ochr yn ochr â’r sefyllfa costau byw. Yn yr un modd â’r grant CSASS, mae’r MoJ yn bwriadu elwa o gael gwell mynediad fel hyn at fewnwelediadau a data o’r SSG, wrth ystyried ei hymyriadau polisi ym maes cyngor a chefnogaeth gyfreithiol gynnar.

# 9. Cyfeiriadau


Cyngor Ar Bopeth. (2022). CA cost of living data dashboard. Adalwyd 14 Medi, 2022,o https://public.flourish.studio/story/1634399/

Cyngor Ar Bopeth. (2022, 31 Mawrth). Citizens Advice crisis support record broken again in March. Adalwyd 14 Medi, 2022,o https://www.citizensadvice.org.uk/about- us/about-us1/media/press-releases/citizens-advice-crisis-support-record-broken-again-in- march/

Franklyn, R., Budd, T., Verrill, R., a Willoughby, M. (2017). *Findings from the Legal Problem and Resolution Survey, 2014-15*. London: Ministry of Justice. Adalwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/596490/legal-problem-resolution-survey-2014-to-2015-findings.pdf

Heppell, E.-M., a Sharma, R. (2021). *COVID-19 Specialist Advice Service Scheme: End of Grant Report*. London: Ministry of Justice. Adalwyd o https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-specialist-advice-service-scheme-end-of-grant-report

Institute for Government. (2022). *Cost of living crisis*. Adalwyd 14 Medi, 2022,o wefan Institute for Government: https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainers/cost-living-crisis

Institute for Government Analysis. (2021). *Timeline of UK coronavirus lockdowns*, March 2020 to March 2021. Adalwyd o wefan Institute for Government https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/timeline-lockdown-web.pdf

Moorhead, R., Margaret, R., a Consultancy, M. R. (2006). *A trouble shared -legal problems clusters in solicitors' and advice agencies*. United Kingdom: Department of Constitutional Affairs and Cardiff University. Adalwyd o https://orca.cardiff.ac.uk/5184/1/Moorhead_et_al_2006_A_Trouble_Shared.pdf

Pleasance, P., Balmer, N., Patel, A., Cleary, A., Huskinson, T., a Cotton, T. (2011). *Civil Justice in England and Wales: Report of Wave 1 of the English and Welsh Civil and Social Justice Panel Survey*. United Kingdom: Legal Services Commission and Ipsos MORI. Adalwyd o http://doc.ukdataservice.ac.uk/doc/7643/mrdoc/pdf/7643_csjps_wave_one_report.pdf

Tîm Ymchwil Cefnogaeth Gyfreithiol. (2021). *COVID-19 Specialist Advice Service Scheme –Interim Report, January 2021*. London: Ministry of Justice. (Adnodd mewnol)

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. (2019). *2019 Individual Legal Needs Dashboard*. Adalwyd o wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol: https://legalservicesboard.org.uk/2019-ilns-dashboard

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. (2019). *Coronavirus impact dashboard development*. Adalwyd o wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol: https://legalservicesboard.org.uk/coronavirus_impact

Y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol. (2021). *Grants Awarded*. Adalwyd o wefan y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol: https://www.communityjusticefund.org.uk/grants-awarded/

# Atodiad 1
# Methodoleg

Roedd yr holl gyllid a gafodd y 66 o dderbynwyr grant wedi cael ei fonitro a'i werthuso. Oherwydd y pwysau a oedd ar sefydliadau am gyfnod hir o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, un o brif egwyddorion y gwerthusiad oedd y dylid sicrhau mewnwelediadau wrth leihau beichiau ychwanegol ar dderbynwyr y grant ac unrhyw un a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau cymorth. Felly, y nod wrth gasglu data gan dderbynwyr y grant oedd canfod a oedd y cyllid grant wedi cyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn y cyflwyniad. Lle'r oedd y rhain ar gael, gofynnwyd hefyd i dderbynwyr y grant ddarparu data ôl-weithredol am y cyfnod rhwng diwedd grant y CSASS a dechrau'r grant SSG (mis Ebrill 2021 i fis Gorffennaf 2021). Er nad oedd y data hyn yn caniatáu dadansoddi cymharol rhwng data'r CSASS a data'r SSG am fod sefydliadau gwahanol yn cael eu hariannu drwy'r SSG, roeddent yn rhoi'r gallu o gael trosolwg cyffredinol ar dueddiadau a themâu tebyg o dan y ddau grant.

Yn ogystal â chasglu gwybodaeth a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r amcan o ddangos gwerth y grant, roedd yr MoJ wedi achub ar y cyfle hwn i gael mwy o fewnwelediad i'r sector cyngor arbenigol nid-er-elw.

Casglwyd data drwy dempled safonedig, a ddatblygwyd gan ddadansoddwyr yr MoJ, yn Hydref 2021. Drwy ddefnyddio llyfr gwaith Excel a holiadur arolwg ar-lein, roedd derbynwyr y grant wedi darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Y sefydliadau a gafodd gymorth
- Y symiau a ddyfarnwyd
- Data am wariant ym mhob un o fisoedd y cyfnod cyllido
- Nifer yr achosion lle'r oedd y sefydliadau wedi darparu cymorth yn ystod y cyfnod adrodd, mewn meysydd cyfraith penodol
- Nifer yr achosion lle'r oedd y sefydliadau wedi darparu cymorth cyn y cyfnod adrodd,mewn meysydd cyfraith penodol
- Y dulliau darparu a ddefnyddiwyd i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol i gleientiaid drwy gydol y cyfnod cyllido
- Data am y defnydd o wefannau yn ystod y cyfnod cyllido ac yn y flwyddyn flaenorol

Yn ogystal â hyn, cyfwelwyd is-sampl o saith sefydliad a oedd wedi derbyn y grant. Dewiswyd yr is-sampl ar sail maint y grant, lleoliad, natur y gwasanaethau a ddarparwyd, demograffeg cleientiaid, a gwariant er mwyn cael mwy o fewnwelediad i dueddiadau penodol ac arloesi gan sefydliadau.

**Tabl 3: Amserlen adrodd**

| Terfyn amser | Data a ddarparwyd |
|---|---|
| 5 Tachwedd 2021 | • Arolygon ar-lein gyda data monitro (am y chwarter blwyddyn cyfredol a data hanesyddol) gan yr holl sefydliadau<br>• Dalenni gwariant gan yr holl sefydliadau |
| 20 Tachwedd 2021 | • ATJF yn sicrhau ansawdd data am wariant ac yn anfon dalenni gwariant pob un o dderbynwyr y grant i'r MOJ |
| 31 Rhagfyr 2021 | • Adroddiad interim am ganfyddiadau gwerthuso'r grant |
| Ebrill 2022 | • Gwariant gwirioneddol gan dderbynwyr y grant<br>• Arolygon ar-lein gyda data am berfformiad<br>• Manylion unrhyw gyllid sydd heb ei wario (os yw'n berthnasol)<br>• Manylion unrhyw gyllid a gymerwyd yn ôl (os yw'n berthnasol) |
| Mehefin 2021-Awst 2022 | • Ymchwil ansoddol drwy gyfweliadau lled-strwythuredig â saith derbynnydd grant |
| Hydref 2022 | • Drafftio'r gwerthusiad terfynol |

# Atodiad 2

# Derbynwyr y grant a gwerth y grant

| Enw’r sefydliad | Grant a gafwyd gan yr MOJ |
|---|---|
| Advice4Renters | £16,425.00 |
| Anti-Trafficking and Labour Exploitation Unit (ATLEU) | £39,420.00 |
| Asylum Justice | £39,420.00 |
| Brighton Housing Trust | £39,420.00 |
| Bristol Law Centre | £39,420.00 |
| Bristol Refugee Rights | £16,425.00 |
| Brixton Advice Centre | £16,425.00 |
| Cambridge House | £26,280.00 |
| Canterbury Housing Advice Centre | £13,797.00 |
| Central England Law Centre | £39,420.00 |
| Citizens Advice Barking and Dagenham | £26,280.00 |
| Citizens Advice Central and East Northamptonshire | £19,710.00 |
| Citizens Advice Lincoln & District | £28,742.00 |
| Citizens Advice Mid-North Yorkshire | £29,565.00 |
| Citizens Advice Sheffield & Law Centre | £32,850.00 |
| Citizens Advice Shepway | £27,594.00 |
| Community Advice and Law Service | £32,850.00 |
| Community Law Service Northampton and County | £31,864.00 |
| Cumbria Law Centre | £39,420.00 |
| Derbyshire Law Centre | £37,308.00 |
| Disability North | £27,765.00 |
| Dostiyo Asian Women and Girls Organisation | £32,850.00 |
| Ealing Law Centre | £39,420.00 |
| Equality Action Limited | £31,405.00 |
| Friends, Families, and Travellers | £39,420.00 |

| **Enw'r sefydliad** | **Grant a gafwyd gan yr MOJ** |
|---|---|
| Fusion Housing Kirklees LTD | £34,033.00 |
| Fylde Coast Advice & Legal Centre | £39,420.00 |
| Great Yarmouth Refugee and Outreach Support (GYROS) | £32,850.00 |
| Greenwich Housing Rights | £26,280.00 |
| Harlow Advice Centre | £39,249.00 |
| Hillingdon Law Centre | £32,850.00 |
| Hope Projects | £26,280.00 |
| Justice First - Tees Valley | £26,280.00 |
| Kanlungan Filipino Consortium | £19,710.00 |
| Kent Refugee Help | £13,140.00 |
| Kirklees Law Centre - Dewsbury | £28,663.00 |
| Luton Law Centre | £39,420.00 |
| Manuel Bravo Project | £39,420.00 |
| Maternity Action | £39,420.00 |
| Merseyside Law Centre | £36,792.00 |
| Migrant Legal Action | £19,710.00 |
| Norfolk Community Law Service | £45,990.00 |
| North East Law Centre | £39,420.00 |
| North Kensington Law Centre | £32,850.00 |
| Northamptonshire Rights and Equality Council | £19,710.00 |
| Nottingham Law Centre | £32,850.00 |
| Oasis Cardiff | £36,135.00 |
| Paddington Law Centre | £39,569.00 |
| Peterborough Asylum and Refugee Community Association | £26,280.00 |
| Project for the Registration of Children as British Citizens (PRCBC) | £19,710.00 |
| Refugee and Migrant Forum of Essex & London (RAMFEL) | £16,425.00 |
| Refugee Support (Devon) Ltd | £27,528.00 |
| Refugee Women's Association | £19,710.00 |
| Revive CIO | £32,620.00 |

| **Enw'r sefydliad** | **Grant a gafwyd gan yr MOJ** |
|---|---|
| Riverside Advice | £39,420.00 |
| Shelter Cymru | £39,420.00 |
| Slough Immigration Aid Unit | £6,570.00 |
| South London Refugee Association | £26,280.00 |
| South West London Law Centres | £39,420.00 |
| Southwark Law Centre | £19,710.00 |
| Speakeasy Law Centre | £31,536.00 |
| Spitfire Advice and Support Services ltd | £19,710.00 |
| Suffolk Law Centre | £22,995.00 |
| Vauxhall Community Law and Information Centre | £36,135.00 |
| Wanstead and Woodford Migrant Support | £6,570.00 |
| Youth Legal & Resource Centre | £16,425.00 |

# Atodiad 3

## Dosbarthiad y materion lle rhoddwyd cymorth rhwng meysydd cyfraith

| Meysydd cyfraith | Lloches a Mewnfudo | Gofal Cymunedol | Dyled | Anabledd | Gwahaniaethu | Addysg | Cyflogaeth | Tai | Iechyd Meddwl | Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol | Budd-daliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-21 | 3252 | 310 | 1745 | 877 | 177 | 194 | 1157 | 3781 | 715 | 197 | 4634 |
| Mai-21 | 3489 | 399 | 1735 | 920 | 172 | 176 | 1095 | 3513 | 658 | 188 | 4632 |
| Meh-21 | 3978 | 412 | 2088 | 1070 | 152 | 166 | 1231 | 3981 | 720 | 247 | 5270 |
| Gor-21 | 3572 | 406 | 1872 | 1067 | 176 | 147 | 1212 | 3992 | 689 | 222 | 5143 |
| Awst-21 | 3106 | 344 | 1866 | 1029 | 163 | 163 | 1050 | 3385 | 767 | 144 | 4551 |
| Medi-21 | 3623 | 328 | 2052 | 1050 | 164 | 228 | 1163 | 3718 | 652 | 182 | 4853 |
| Hyd-21 | 3330 | 234 | 1343 | 204 | 141 | 148 | 1093 | 3490 | 345 | 264 | 4817 |
| Tach-21 | 3903 | 276 | 1447 | 180 | 154 | 117 | 1175 | 3804 | 343 | 310 | 5571 |
| Rhag-21 | 2563 | 255 | 1081 | 167 | 119 | 81 | 769 | 2773 | 273 | 231 | 4167 |
| Ion-22 | 3037 | 277 | 1383 | 152 | 143 | 103 | 1080 | 3680 | 358 | 310 | 5234 |
| Chw-22 | 3567 | 287 | 1405 | 181 | 191 | 98 | 1094 | 3671 | 339 | 312 | 5340 |
| Maw-22 | 3545 | 328 | 1530 | 208 | 250 | 106 | 1224 | 4117 | 372 | 298 | 6063 |

# Atodiad 4

# Canllaw ar bynciau ar gyfer cyfweliadau â derbynwyr y grant

## Gwerthusiad Diwedd Grant yr SSG:
## Canllaw ar bynciau ar gyfer cyfweliad lled-strwythuredig

Ym Mawrth 2021, cyfrannwyd cyllid o £2 miliwn gan yr MoJ i gam dau y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol (CJF): cronfa ar y cyd â chyllidwyr annibynnol eraill, a reolir gan y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder. Yr enw ar y cyllid hwn oedd y Grant Cynaliadwyedd Sector (SSG) ac mae wedi cynorthwyo 66 o sefydliadau cyngor cyfreithiol nid-er-elw yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 er mwyn:

1. Parhau â gwasanaethau cynghori i ddelio ag effaith barhaus y pandemig COVID-19.
2. Cynyddu mynediad at gyfiawnder drwy arloesi strategol;
3. Sicrhau mynediad eang at gyfiawnder drwy ddyfarnu grantiau i wella mynediad at gyngor i bobl na fyddent yn gallu cael ato fel arall (yn cynnwys unigolion agored i niwed na allent gael mynediad at gymorth ar-lein).

Mae'r grant hwn yn dilyn grant y Cynllun Gwasanaethau Cynghori Arbenigol COVID-19 (CSASS) (cam un y CJF) lle'r oedd yr MoJ a DCMS wedi darparu £5.4 miliwn i ddarparwyr cyngor cyfreithiol arbenigol nid-er-elw i ddelio â'r pandemig COVID-19 yn Ebrill 2020. Disgrifiwyd effaith y grant CSASS yn yr adroddiad diwedd grant.[16] Er bod cyfnod cyllido'r grant CSASS wedi dod i ben ym mis Mawrth 2021, roedd y sector cyngor cyfreithiol nid-er-elw yn parhau i deimlo a delio ag effeithiau'r pandemig COVID-19, a hyn oedd y sail resymegol dros ailddechrau darparu cyllid sbarduno drwy'r SSG.

O dan amodau'r grant, mae wedi bod yn ofynnol bod sefydliadau derbynwyr y grant yn adrodd ar y ffordd y maent wedi defnyddio'r cyllid, a thracio lefelau'r ddarpariaeth o wasanaethau. Gan fod cyfnod cyllido'r grant wedi dod i ben, mae cyfweliadau lled-strwythuredig yn cael eu cynnal â sampl fach o saith derbynnydd grant er mwyn:

1. Asesu a oedd y grant wedi cyflawni ei amcanion.

[16] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1039750/csass-grant-report.pdf

2. Deall profiadau'r sefydliadau o'r pandemig COVID-19 hyd yn hyn ac asesu effaith tueddiadau yn y sector ar wariant y sector cyngor cyfreithiol, dulliau darparu, a'r defnydd o dechnoleg o gymharu â llinell sylfaen y data am y grant CSASS (ar gyfer y rheini a ariannwyd ar y ddau gam).
3. Cael adborth ar y broses casglu data er mwyn elwa o'r gwersi a ddysgwyd am werthuso'r grant.

Un o brif egwyddorion y gwaith gwerthuso oedd sicrhau mewnwelediad gan leihau beichiau ychwanegol ar dderbynwyr y grant a'u cleientiaid. Felly, mae'r dull o samplu ar gyfer y cyfweliadau wedi'i seilio'n bwrpasol ar nodweddion y sefydliadau a data monitro a ddarparwyd, gan ganolbwyntio ar sefydliadau y mae eu data yn ymddangos yn 'unigryw' mewn rhyw ffordd (h.y., gwario cyfran fawr o'r cyllid ar gyflawni un diben, newidiadau mewn gweithgarwch yn 2020 o gymharu â 2021, gwasanaethu grwp(iau) sy'n agored iawn i niwed neu leoliad daearyddol etc).

**I dderbynwyr y grant:** Diolch yn fawr am roi o'ch amser i siarad â ni. Rydym yn gwerthfawrogi'ch ymdrechion i ddarparu data monitro cyson a dibynadwy sydd wedi ein galluogi i werthuso'r Grant Cynaliadwyedd Sector. Mae'r cwestiynau sydd yn y ddogfen hon yn ganllaw a chyn cynnal pob cyfweliad cynhelir adolygiad o'r data a gyflwynwyd gan eich sefydliad a bydd y rhesymau dros eich dewis yn cael eu hystyried wrth benderfynu pa gwestiynau a fydd yn cael blaenoriaeth.Er nad oes angen paratoi ymlaen llaw, byddai ymgynefino â'r rhestr ddangosol hon o gwestiynau yn gallu ein helpu i wneud y gorau o'r amser y byddwn ni gyda'n gilydd.

**Meddyliau cyffredinol**

1. Beth yw'r prif fuddion rydych chi wedi'u gweld i'ch cleientiaid o ganlyniad i'r cyllid SSG? A oes unrhyw astudiaethau achos neu naratifau? (gallwch anfon astudiaeth achos atom wedyn os yw'n well gennych chi)

**Thema 1: Y galw am wasanaethau**

2. Ydych chi wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau ers Mehefin 2021? Os felly, ydych chi wedi gallu ateb y galw hwn?
3. Ym mha feysydd cyfraith y cafwyd y galw mwyaf neu pa fathau o faterion y mae pobl yn dod atoch chi i'w trafod?

**Thema 2: Capasiti'r sefydliad**

4. Yn fwy diweddar, ar ôl Mehefin 2021, ydych chi wedi gallu cynyddu'r capasiti yn eich sefydliad? Os felly, sut?
5. Beth oedd y rhwystrau i gynyddu capasiti?

**Thema 3: Dulliau darparu**

6. Beth yw'ch prif ddulliau darparu nawr ac a ydyn nhw'n wahanol i'r rheini roeddech yn eu defnyddio'n bennaf cyn y pandemig COVID-19?
7. O ganlyniad i'r newid mewn dulliau darparu, ydych chi wedi gorfod lleihau'r gwasanaeth?
8. Pa wersi sydd wedi'u dysgu am ddarparu gwasanaethau o bell: rhai cadarnhaol a negyddol?
9. Ar ôl y profiad o'r pandemig COVID-19, pa strategaeth rydych chi'n ei rhag-weld ar gyfer darparu cyngor arbenigol (ac a oes unrhyw ddogfennau y gallwch dynnu ein sylw atynt)?

**Thema 4: Technoleg ac Arloesi**

10. Allwch chi gynnig unrhyw fewnwelediad i'r rhesymau dros wario cyfran gymharol fach o'r grant hwn ar dechnoleg er gwaethaf y newid i ddarparu o bell yn ystod y pandemig COVID-19?
11. A oes ffyrdd mwy newydd i gyrraedd eich cleientiaid, yn enwedig y rheini nad yw'n hawdd iddyn nhw gael mynediad at eich gwasanaethau, sydd wedi cael eu mabwysiadu gennych chi yn ystod y pandemigCOVID-19?

**Thema 5: Demograffeg cleientiaid**

12. Allwch chi gynnig unrhyw fewnwelediad i ddemograffeg y cleientiaid rydych yn eu gwasanaethu fel arfer?
13. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw gategorïau newydd o gleientiaid yn ceisio cyngor arbenigol o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig COVID-19? Pa fath o faterion y maen nhw'n eu hwynebu?

**Thema 6: Adborth am brosesu a darparu'r grant**

14. Pa fath o brofiad gawsoch chi wrth gael y cyllid hwn gan yr MoJ?
15. Beth yw'ch barn am natur y grant a'r broses adrodd data?
16. Wrth ddarparu cyngor a chymorth o'r math hwn yn y dyfodol, beth fyddech chi'n ei weld yn hanfodol ei gynyddu, ei ailadrodd neu ei wneud yn wahanol?

# Atodiad 5
# Holiadur yr arolwg o dderbynwyr grant

Dylid nodi bod yr un holiadur wedi'i ddosbarthu i dderbynwyr grant er mwyn casglu data ar ganol cyfnod y grant am y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021.

## Cronfa Cynaliadwyedd Sector –<br>Monitro'r Grant rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022

### 1. Cyflwyniad

O dan yr amodau ar gyfer derbyn cyllid o'r Gronfa Cyfiawnder Cymunedol yn 2021/22, mae'n ofynnol i'ch sefydliad ddarparu data am wariant a monitro. Bydd y data hyn yn cyfrannu i adrodd gan Lywodraeth er mwyn darparu sicrwydd ariannol a dangos sut mae cyllid grant wedi cyflawni ei amcanion. Mae'r data monitro a ddarperir yn yr arolwg hwn yn bwysig ac ni ddylai gymryd ond ychydig o amser i lenwi'r holiadur.

Cyflwynwch yr holiadur erbyn**29 Ebrill 2022**. Gellir cadw'r atebion i gwestiynau wrth fynd ymlaen a mynd yn ôl at yr arolwg wedyn drwy bwyso'r botwm 'Save and Continue Later' ar waelod y dudalen. Os cewch unrhyw anawsterau, cysylltwch â'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder (cjf@atjf.org.uk).

### 2. Data gweinyddol

Dewiswch eich sefydliad o'r rhestr sydd wedi'i darparu isod.

### 3. Lleoliad y sefydliad

(i) Dewiswch y rhanbarth lle mae prif swyddfa'ch sefydliad o'r rhestr sydd wedi'i darparu isod. Os nad yw'r lleoliad ar gael, dewiswch'Arall' yn opsiynau'r gwymplen a chofnodi manylion yn y blwch 'Arall' a ddarparwyd isod.

(ii) Dewiswch yr holl leoliadau lle mae'r cyllid grant yn darparu cymorth. Dewiswch 'Amherthnasol' os yw'r cymorth yn cael ei ddefnyddio yn y rhanbarth lle mae prif swyddfa'ch sefydliad yn unig.

**4. Data monitro (Hydref 2021 - Mawrth 2022) – Lefelau gweithgarwch**

Mae'r adran hon yn ymwneud â data gweithgarwch a monitro yn eich sefydliad rhwng Hydref 2021 - Mawrth 2022. Lle mae'r cwestiynau'n ymwneud â "cymorth", sylwer: mae "cymorth" yn golygu nifer yr achosion cleientiaid lle'r ydych wedi darparu cyngor/cyfarwyddyd mewn perthynas â phroblemau cyfreithiol a hawliau lle nad ydynt yn gallu fforddio talu am gyfreithiwr. Lle mae un cleient yn cael cymorth mewn nifer o feysydd cyfraith, cyfrifwch hynny unwaith ar gyfer pob un (h.y. os yw rhywun wedi gofyn am gyngor mewn perthynas â dyled a chyflogaeth, rhowch gyfrif am hynny dan y ddau faes cyfraith hynny). Mae'r un peth yn berthnasol lle mae rhywun wedi gofyn am gymorth mewn gwahanol fisoedd (h.y. os yw rhywun wedi gofyn am gyngor ym mis Awst ac wedyn ym mis Medi, cofnodwch hynny o dan y ddau fis).

(i) Cofnodwch nifer yr achosion cleientiaid lle rhoddwyd cymorth gan eich sefydliad cyfan ym mhob mis rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, ac yn y gwahanol feysydd cyfraith sydd wedi'u rhestru isod. Dylai'r ffigurau fod yn rhifau cyfan.

**5. Data monitro (Hydref 2021 - Mawrth 2022) – Dulliau darparu**

Mae o ddiddordeb i ni wybod sut rydych yn darparu cyngor a chyfarwyddyd i'ch cleientiaid ar hyn o bryd. Darparwch amcangyfrif o gyfran y sesiynau cymorth sydd wedi digwydd drwy'r dulliau darparu isod rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022. Darparwch rif cyfan ar gyfer pob un o'r dulliau isod gan sicrhau bod y ffigurau'n dod i 100 yn y blwch 'Cyfanswm'. Rhowch '0' mewn blychau sydd heb fod yn berthnasol.

Dros y ffôn %

Cynadledda fideo ar-lein (h.y. Skype, Zoom, FaceTime, neu dechnoleg cynadledda fideo arall) %

E-bost %

Ffurflen ar wefan (e.e. ffurflen tudalen "Cysylltwch â ni") %

Wyneb yn wyneb – swyddfa/safle'r sefydliad %

Wyneb yn wyneb – ymweld â chleientiaid neu sefydliadau eraill (h.y. sefydliadau eraill yn y trydydd sector fel ceginau cawl, llochesi, etc.) %

Arall %

Anhysbys (rhowch "100" os nad yw'r wybodaeth hon gennych chi) %

Cyfanswm: %

Darparwch fanylion am ddulliau darparu eraill neu unrhyw sylwadau am ddulliau darparu yn y blwch isod.

**6. Data monitro (Hydref 2021 - Mawrth 2022) – Ymweliadau â gwefannau**

Os yw hyn ar gael, darparwch wybodaeth am niferoedd y bobl sy'n ymweld â'ch gwefan yn y misoedd sydd wedi'u rhestru isod. Y diffiniad o ymweliad â gwefan yw un ymwelydd sy'n cyrraedd eich gwefan ac yn mynd yn ei flaen i bori. Os nad yw data ar gael am fis penodol, gadewch y blwch yn wag.

**7. Adborth am y grant**

Rhannwch eich meddyliau yn y blychau testun isod am natur y grant hwn a'r dull o'i ddarparu.

(i) Beth oedd yn gweithio'n dda o ran natur y grant a'r dull o'i ddarparu?

(ii) Beth oedd heb weithio cystal o ran natur y grant a'r dull o'i ddarparu ac a oes modd gwella hyn?

**8. O dan amodau'r cyllid grant, mae'n ofynnol i'ch sefydliad anfon adroddiadau anodedig rheolaidd am wariant i'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder.**

Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod yn anfon yr adroddiad gwariant am holl wariant y grant hyd fis Mawrth 2022 i cjf@atjf.org.uk.

**Diolch am ddarparu'r data hyn! Os hoffech ddarparu unrhyw adborth neu wybodaeth arall, gwnewch hynny yn y blwch isod.**